ECO'R WYDDFA

RHIF 348 HYDREF 2007 PRIS 40c

**YN Y RHIFYN HWN:**

- Nia Glyn ym Mwmbai
- Apêl am ddosbarthwr i'r Eco
- Llythyrau Ellis Williams
- Y *Gwyddoniadur* newydd

# Portreadau ANNETTE BRYN PARRI

Y tro cyntaf i mi gyfarfod Annette oedd sawl blwyddyn yn ôl bellach, a hithau and deuddeg oed, yn cyfeilio i barti oedd yn diddanu'r ymwelwyr yn wythnosol yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Annette bryd hynny yn hogan ysgol ond ei thalent hynod fel pianydd yn cyson syfrdanu'r bobl ddiarth o sawl gwlad – cymaint yn wir nes i un gŵr ddod ataf, fel arweinydd y noson, a dweud yn hollol ddiffuant, 'This girl is going to go very far as a pianist.'



Soniodd wrthyf iddi ddweud wrth ei mam, a hithau ond yn dair oed, mai'r anrheg Nadolig a ddymunai oedd 'Panano', a hynny am iddi gael cymaint o bleser yn chwarae'r piano yn nhŷ ei nain pan fyddai'n galw yno. Ac, wrth reswm, bu Siôn Corn yn barod iawn ei gymwynas a dod â 'panano' yn anrheg gwerth chweil. Yn wir dywedodd ei thad, Ifan Bryn, iddi feddu ar glust gerddorol mor eithriadol fel y byddai, ar ôl clywed alaw ar raglen deledu neu radio, yn mynd yn syth at y piano newydd a chwarae'r alaw yn hollol ddidrafferth.

Yn bump oed cafodd ei gwers gyntaf a honno gan yr hen gyfaill, y diweddar John Griffith, Cae'r Bythod, a ddywedodd wrth ei rhieni pan oedd Annette yn ddeg oed na fedrai ef roi rhagor o addysg iddi ac y dylai fynd at athro arall er mwyn eistedd arholiadau.

Pan yn ddisgybl yn ysgol gynradd Gwaun Gynfi, Deiniolen, arferai gyfeilio i'r gwasanaethau boreol ond, a hithau ond yn saith oed, cafodd y cyfle i gyfeilio yn gyhoeddus am y tro cyntaf gan greu penbleth i arweinydd cyfarfod yr hwyr yn Eisteddfod Cefnywaun. Pan welodd y Parchedig John Pryce Wynne y ferch fach yn dod i'r llwyfan, sibrydodd wrthi bod cyfarfod y plant wedi bod yn y prynhawn ac mai'r oedolion oedd yn cynnal cyfarfod yr hwyr. Ond na, dod i'r llwyfan i gyfeilio i'w thad oedd yn cystadlu ar yr unawd 'Bwthyn bach melyn fy nhad' yr oedd y ferch fach ac, wrth reswm, erys y foment honno yn fyw ar gof Annettte Bryn Parri o hyd. Dim rhyfedd iddi gyfaddef y byddai yn ysu i gloch yr ysgol ganu ar derfyn y pnawn er mwyn cael mynd adref i chwarae'r piano.

Wrth gyfeirio at ei blynyddoedd fel disgybl yn Ysgol Brynrefail, roedd yn fwy na pharod i gyfaddef nad oedd yn or-hoff o'r gwahanol bynciau oddigerth cerddoriaeth ac, o ddyfynnu Annette,

'Ysgol i mi oedd y 'Steddfod bob blwyddyn,' gan y câi gyfle i gyfeilio, arwain a hyfforddi unigolion, partïon a chorau. Does dim angen dweud iddi ennill y gystadleuaeth chwarae piano bob blwyddyn yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

Aeth o'r ysgol i'r Coleg Brenhinol ym Manceinion ac, wedi pedair blynedd, ennill gradd nid yn unig yn astudio'r grefft o chwarae piano a cherddoriaeth yn gyffredinol ond hefyd chwarae'r delyn am gyfnod byr. Yn naturiol roedd hefyd yn cyfeilio yn y gwersi a gâi'r cantorion yn y coleg – profiad a fu o fudd amhrisiadwy iddi yn ei gyrfa wedi hynny.

Bu cyfnod o frethyn cartref yn ogystal – canu a chyfeilio i barti Tŷ'r Ysgol, ei chartref bryd hynny yn Ninorwig, ac, wrth gwrs, roedd hi'n un o'r tair chwaer, 'Genod Tŷ'r Ysgol' – Olwen a Marina oedd y ddwy arall – ac Ifan Bryn, y tad, yn cadw trefn ar 'y genod 'ma'!

Yn ddigon naturiol dipyn yn hiraethus oedd y ferch ifanc ym Manceinion a hynny, o bosib, am ei bod wedi dyweddïo â Gwyn – y gŵr erbyn hyn – cyn dechrau ar ei chwrs.

A hithau ar ei blwyddyn olaf yn y Coleg bu galw cyson am ei gwasanaeth i gyfeilio yn swyddogol mewn gwahanol eisteddfodau yn lleol a thu hwnt. Eisteddfod Bethel oedd y gyntaf o gynifer â deg ar hugain o eisteddfodau mewn un gaeaf – a arweiniodd yn y man i gyfeilio mewn eisteddfodau rhanbarthol a'r Genedlaethol.

Ar derfyn ei chwrs colegol yn 1984 fe briododd Annette a Gwyn, gan gychwyn eu bywyd priodasol yn eu cartref newydd, Cynefin, ble maent yn byw o hyd. Yna wedi cyfweliad â William Mathias, cafodd Annette swydd yn dysgu'r piano ym Mhrifysgol Bangor. Erbyn hyn roedd llu o wahoddiadau yn dod o bob rhan o Gymru i gyfeilio i wahanol unawdwyr ac, yn ogystal, dyma'r cyfnod iddi gychwyn ar gyfeilio i wahanol ddatgeiniaid i Gwmni Recordiau Sain, cyfnod cyffrous a phleserus iddi.

Yn y flwyddyn 2000 fe wnaeth benderfyniad o gryn bwys – sef rhoi'r gorau i fod yn un o gyfeilyddion swyddogol yr Eisteddfod Genedlaethol wedi un mlynedd ar bymtheg. Hynny am y teimlai fod y rhan helaethaf o wyliau'r tri phlentyn yn mynd i ymarfer cyn yr Eisteddfod ac yna wythnos galed yr Eisteddfod ei hun – yn wir mewn un Eisteddfod bu iddi gyfeilio i gynifer â naw deg o ganeuon! Ar ben hynny roedd amryw o'r caneuon yn hunan-ddewisiad, oedd yn rhoi baich ychwanegol ar bob cyfeilydd.

Yn sicr gwraig hynod hynod o brysur yw Annnette Bryn Parri. Mae'n cyfeilio i gwmni Sain o hyd; yn gyfeilydd i Hogia'r Wyddfa; yn arweinydd Côr Meibion y Traeth ers 2001; yn achlysurol roi gwersi yng Nghanolfan William Mathias yng Nghaernarfon; ers 1985 yn gyfeilydd swyddogol y rhaglen deledu boblogaidd nad yw mwyach, sef *Noson Lawen*; ac yn ddieddar mae wedi ymuno â Dylan Cernyw i ffurfio'r ddeuawd 'Piantel' – piano a thelyn – y ddeuawd anghyffredin a gafodd gymaint o ganmoliaeth yn un o gyngherddau'r Eisteddfod Genedlaethol eleni ac mae cryno ddisg o'r ddeuawd yn hynod boblogaidd.

Y diwrnod cyn i mi alw i'w gweld y dychwelodd o wythnos yn cyfeilio mewn cyngherddau yn yr Alban, o dan y pennawd 'Wales at the Fringe', ac yn edrych ymlaen at ddychwelyd yno eto'r flwyddyn nesaf.

Mae gan Annette a Gwyn dri o blant – un ferch, Heledd, a dau o fechgyn, sef Ynyr a Bedwyr. Mae Heledd, sydd yn ugain oed hefyd yn chwarae'r piano 'yn fendigedig', meddai'r fam, ac yn dilyn cwrs y gyfraith ym Mhrifysgol Bangor, i ble y mae Ynyr, sydd yn bedair ar bymtheg oed, yn gobeithio mynd i gychwyn cwrs ar Fusnes a Marchnata gyda hyn. Mae'r ieuengaf, Bedwyr, sydd yn ddeunaw oed, yn meddu ar lais bariton hynod ond sydd am gymryd blwyddyn i ffwrdd cyn mynd i goleg – hyn yn dilyn llwyddiant gyda'i Lefel A yr haf hwn. Nid oes angen cofnodi fod y tri phlentyn wedi etifeddu dawn gerddorol eu rhieni.

Sut, gofynnais, oedd Annette yn ymlacio? Ei hateb annisgwyl efallai oedd, 'llnau'r tŷ 'ma o'r top i'r gwaelod, a choginio.' Prysurodd i'm hysbysu ei bod hefyd wrth ei bodd yn gwylio *Coronation Street* a *True Movies*.

Roedd Annette yn hynod awyddus i ddatgan ei diolchgarwch i'w rhieni, Hannah ac Ifan, a Gwyn y gŵr, am eu cefnogaeth barod ar hyd y daith. Mae Gwyn yn Bennaeth Adran Addysg, Cyngor Ynys Môn, yn *chauffeur* dibynadwy sy'n galluogi ei wraig i drafeilio i'w gwahanol ymrwymiadau, yn coginio 'cinio dydd Sul bendigedig', yn ôl Annette ac, wrth gwrs, yn goruchwylio'n hamddenol, gyda balchder all'swn feddwl, weddill teulu amryddawn a thalentog Cynefin, uwchben Deiniolen.

*'This girl will go far…'* oedd barn y dyn hwnnw wrthyf yng Ngwesty'r Victoria sawl blwyddyn yn ôl bellach. Wyddwn i ddim bod proffwydi yn dod ar wyliau i Lanberis! Heb os, mae Annette Bryn Parri wedi mynd ymhell iawn o'i chynefin, fel y gŵyr Cymru gyfan, ond rywsut rywfodd, yn ôl i'w chynefin ei hun y daw bob tro.

ROL WILLIAMS

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 348**
**HYDREF 2007**
*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Tîm Golygyddol**
**Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i**
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
**Straeon ac erthyglau ar e-bost**
storiau@ecorwyddfa.co.uk

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, 22 HYDREF**
**Os gwelwch yn dda Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 1 TACHWEDD**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu â | Rhif Fôn |
|---|---|---|---|---|---|
| Tachwedd | 22 Hydref | 1 Tachwedd | Llanberis | Gwilym Evans | 870 625 |

## RHODDION

£10: Mrs Laura Pierce, Waunfawr; Beti Owen, Crud yr Awel, Bethel; Teulu Ronald Gwilym Thomas, 25 Dôl Eilian, Llanberis, er cof amdano; Mr C. a Mrs E. E. Thomas.

£5: Selwyn Griffith, Crud yr Awen, Penisarwaun; Llinos ac Aled Vaughan Evans, 12 Stad Tŷ Croes, Llanfairpwll; Mrs Doris Roberts, Dwyros, Waunfawr; Eilir ac Anna (Manceinion).

## Archifdy Caernarfon

Bydd Archifdy Caernarfon ar gau rhwng dydd Mawrth, 25 Medi a dydd Mawrth, 16 Hydref 2007, er mwyn cyfri'r stoc a gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol.

Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra.

## Hunangofiant newydd o'r Wasg

Deellir y bydd hunangofiant Rol Williams, awdur Portreadau'r *Eco*, yn dod o'r wasg ym mis Tachwedd eleni, dan y teitl *'Nid Roc... ond Rol'*, gyda'r is-deitl 'O'r Llys i'r Garreg Fawr'.

Yn naturiol ceir yn y gyfrol hanes ei ddyddiau cynnar ym mhentref Brynrefail gan sôn am rai o gymeriadau'r pentref erstalwm; ei gyfnod yn yr Awyrlu yn y wlad yma a'r Aifft; troeon trwstan blynyddoedd yn diddanu mewn Nosweithiau Llawen; cyfeiriad at ei waith dyddiol yn y Weinyddiaeth Amaeth, yn enwedig y cyfnodau ar ddyletswydd yn ystod aflwydd Clwy'r Traed a'r Genau ac, wrth gwrs, gyfeiriadau at y fro y mae yn byw ynddi bellach ers dros hanner can mlynedd, sef ardal y Waunfawr.


Yn ogystal ceir nifer o luniau o ddoe a heddiw. Cyhoeddir yr hunangofiant gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.

## PENBLWYDD HAPUS IAWN

i

**Dwynwen Roberts**
Rhianfa Llanberis,
ar ei phen-blwydd
arbennig iawn yn
90 mlwydd oed
ar 5 Hydref, 2007
– oddi wrth y teulu i gyd.

## Lansio *Gwynfyd Gwaun Gynfi*



*Geraint Lloyd Owen, Yr Archdderwydd Selwyn Griffith, Y Canon Idris Thomas, Tom Williams (ŵyr i'r Canon Glyndwr Williams), Wyn Williams (Arweinydd Seindorf Arian Deiniolen) a'r Canon Geraint Wyn Edwards yn Eglwys Crist Llandinorwig ar noson dathlu cyhoeddi'r llyfr sy'n croniclo'n llawn 150 mlynedd o'i hanes.*

## DOSBARTHU'R ECO

Gan fod Mrs Pat Jones, Cae Coch, Brynrefail, wedi rhoi'r gorau i'r swydd o godi'r *Eco* ar ôl y plygu, mae angen cael rhywun o Frynrefail i wneud y swydd erbyn mis Medi.

Carem ddiolch yn fawr iawn i Pat am wneud y gwaith am rai blynyddoedd. Felly, chwi bobol Brynrefail, os am dderbyn yr *Eco*, mae'n rhaid dod i'w nôl i'r lleoliad plygu.

Hefyd, os oes unrhyw un yn methu dod i nôl yr *Eco* ar y noson blygu, mae'n rhaid trefnu i gael rhywun arall i wneud y gwaith yn eich lle. Os yw hyn yn creu problem ac yn amhosibl, a fuasech mor garedig â gadael i'r trefnydd bwndelu wybod, er mwyn gwneud trefniadau dros dro.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

**Caffi Caban**
ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

**Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail**
**www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org**
**01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)**

**Am gymorth:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol*
*Supporting voluntary and community groups*

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
**01286 672626 neu 01341 422575**
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Y CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Awst oedd: £40: Mrs Alma Jones, Tan y Fron; £25: Mr Martin Williams, 6 Tŷ Hen; £10: Mr Derfel Parry, Cae March.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn y cyfarfod ar 6 Medi, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, yr aelodau yn ôl wedi'r gwyliau. Llongyfarchodd Alice Johnstone ar ddod yn Nain eto – merch fach i Neil a Ffion.

Cafwyd pnawn difyr iawn yng nghwmni Mrs Linda Newton o Landegfan yn rhoi sgwrs ar y teitl 'Fy mywyd mewn bocs'. Roedd ganddi lond bocs o eitemau o waith llaw cywrain iawn gyda hanes diddorol iawn am bob un, ac eglurodd ym mha gyfnod o'i bywyd yr oedd wedi eu gwneud – dyna'r eglurhad am deitl ei sgwrs. Diolchodd y Llywydd iddi. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan Lowri Dunn, gan Anne Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Hydref, pryd y bydd Mrs Jenny Roberts o Borthaethwy yn dangos i ni sut i wneud addurniadau Nadolig. Croeso cynnes i aelodau newydd.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Marc Owen, Cilfynydd, a fu'n dathlu cyrredd ei ddeunaw oed yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda i Elgan Jones, Tan-y-coed, ar gyrraedd ei un ar hugain. Llongyfarchiadau mawr i tithau.

Ein llongyfarchion hefyd i Mrs Doris Roberts, Dwyros, a fu'n dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn bedwar ugain mlwydd oed yn ddiweddar.

DYMUNA Doris Roberts roi gair o ddiolch ar achlysur ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed. 'Nid oeddwn yn meddwl fod gennyf gymaint o ffrindiau. Cefais gymaint o gardiau, presantau, arian a blodau gan deulu, ffrindiau a chymdogion. Diolch eto.'

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i Mrs Alice Johnstone, Stad Tref Eilian, ar enedigaeth wyres fach, Beth, merch fach i'w mab, Neil a Ffion, a chwaer fach i Gwilym ac Enlli.

Llongyfarchiadau hefyd i Norman ac Olwen Williams, Llidiart Wen, ar ddod yn Daid a Nain i Osian Gwilym, mab bach i Elin ac Arwyn a brawd a ffrind bach newydd i Guto Gwilym.

POB DYMUNIAD DA a llongyfarchiadau i Osian Gwynedd, Nant, ar ei briodas â Natalie o Borthcawl. Dymunwn bob hapusrwydd i chi eich dau yn eich cartref yng Nghaerdydd.

YMDDEOLIAD. Dymunwn ymddeoliad hapus i Mrs Ann Ellis wrth iddi ymddeol o'i gwaith fel derbynnydd yn syrjyri Liverpool House.

DIOLCH. Dymuna Mrs Laura Pierce, Ty'n Twll, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar enedigaeth Elin, ei wyres fach, ac ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, y diweddar Mr R. Owen.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn welhad buan i Dr R. S. Williams, Tros-y-Gors, a Mr Arthur Ellis, Min-y-Nant, wedi iddynt dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.

ANFONWN ein cofion at Mrs Mair Williams, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, ac at Mrs Catherine Williams sydd wedi mynd i aros i Gartref Nyrsio Cerrig yr Afon. Da yw deall fod Miss Marian Wyn Jones yn gwella ac wedi cael symud o Gaergybi i Gaernarfon. Cofion cynnes atoch, Marian.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Eryri bu farw Mrs B. Westphall, Stad Tref Eilian. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei hunig ferch, Marlene, a'r teulu yn eu profedigaeth drist.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mrs Claire Latham a theulu Haul a Gwynt yn eu profedigaeth o golli tad Claire.

YSGOL WAUNFAWR
Rydym yn dymuno'n dda i'n cyn-ddisgyblion sydd wedi dechrau yn ysgolion Uwchradd Brynrefail a Syr Hugh Owen ac estynnwn groeso arbennig i blant y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith ac yn blant da.

Rwy'n siŵr eich bod wedi gweld y giatiau newydd yn yr iard fewnol. Yn anffodus rydym wedi gorfod buddsoddi mewn giatiau o'r fath am fod plant yn ystod gyda'r nos yn dod i mewn i'r iard fach ac yn gwneud difrod. Rydym ar fin datblygu yr iard fewnol ar gyfer Adran y Babanod ar gyfer Y Cyfnod Sylfaen newydd, fel bod plant yn gallu defnyddio'r gofod tu allan fel man dysgu. Roeddem felly yn awyddus i sicrhau bod yr adeiladau newydd o fewn yr iard yn cael eu diogelu gyda'r nos. Mae'r giatiau hefyd, wrth gwrs, yn fodd i sicrhau gwell diogelwch i'r plant yn ystod oriau'r dydd.

Hoffem fel ysgol ddatgan ein diolchgarwch i Mr Gwilym Williams am wneud y gwaith ac i Mr Fred Buckley am roi o'i amser i gynorthwyo Gwilym gyda'r gwaith peintio.

**Dyddiadau i'w Cadw mewn Cof:**

- Carem eich atgoffa ein bod yn casglu tocynnau Tesco 'Sports for Schools' eleni a byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn rhai. Rydym hefyd yn ailgylchu hen getrysys inc a ffonau symudol.
- Taith Gerdded Noddedig Blwyddyn 4, 5 a 6. Oherwydd y tywydd gwlyb bu'n rhaid gohirio taith yr Adran Iau ddiwedd y tymor diwethaf. Os bydd y tywydd yn caniatáu bwriadwn fynd â phlant blwyddyn 4, 5 a 6 ar daith gerdded i Foel Eilio ddydd Gwener, 21 Medi.
- Bydd y clwb côr yn cychwyn ddydd Llun, 25 Medi, a'r clwb pêl-rwyd ddydd Mawrth, 26 Medi o 3.30–4.15pm.
- Bdd Mr G. Dafydd a Mr G. Williams yn mynd â'r plant i wersyll Glanllyn o ddydd Llun, 1 Hydref, hyd ddydd Mercher, 3 Hydref. Bydd angen i pawb dalu £92.00 cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda. Gwnewch eich sieciau yn daladwy unai i Wersyll Glanllyn neu i Ysgol Waunfawr. Bydd y taflenni cyfarwyddiadau yn cael eu dosbarthu i'r plant maes o law. Diolch yn fawr.
- Cadwch mewn cof bod yr ysgol ar gau ddydd Gwener, 5 Hydref oherwydd cyrsiau hyfforddiant. Dyddiad hanner tymor yw 26 Hydref hyd 5 Tachwedd.
- Ar 26 Hydref tynnir lluniau unigol o'r plant. Mae croeso i deuluoedd, yn frodyr a chwiorydd llai, ddod i'r ysgol erbyn 8.30am.
- Ar 26 Hydref bydd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Croes y Waun am 10.00 o'r gloch. Estynnwn groeso arbennig i chwi ymuno gyda ni fel ysgol yn ein gwasanaeth Diolchgarwch Priodasol Arbennig.
- 26 Hydref: Gwyliau Hanner Tymor, hyd 5 Tachwedd.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR
Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn Y Ganolfan, am 7.15 yh ar 30 Gorffennaf.

Trafodwyd bod y Cyngor yn comisiynu archwiliad technegol yng Nghaeathro ar gyfer cael pafin rhwng y pentref a'r siop.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig i drafod cael cae pêl-droed i bentref Waunfawr ac roedd Neil Pringle, Cyngor Chwaraeon Cymru, yn bresennol i gynnig syniadau i'r Clwb.

Trafodwyd cyflwr y llochesi bws. Nodwyd fod y lloches bws ger yr hen Bost wedi cael ei baentio yn ddiweddar. Mae cyflwr y fynwent a llwybrau troed y pentref yn foddhaol.

Trafodwyd fod hysbysfwrdd Caeathro eisoes wedi ei osod, a bydd hysbysfwrdd Waunfawr yn cael ei osod yn fuan.

Trafodwyd un cais cynllunio, gan gynnig dim gwrthwynebiad.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf fydd 19 Medi am 7.30 o'r gloch yn Waunfawr.

PROFEDIGAETH.
Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elfyn Griffith a theulu Blaen-y-Nant, yn eu profedigaeth o golli brawd Elfyn yn frawychus o sydyn.


**Am Offer Tŷ a Gardd...**

**FORMAG**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: **(01286) 872501**



FINE ART TRADE GUILD

**ORIEL CWM Cwm y Glo**

**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**



**CERIS JONES**
Teglan, Stâd Talybont
**LLANRUG**
**677362**
neu symudol
**07979 620996**

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



**CDH**
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol
27 Stryd y Bont, Caernarfon
**(01286) 672727**
a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
**(01248) 355055**
Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol
Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol



I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**
**21 Stryd Fawr PORTHAETHWY**
Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

# DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

HOFFAI Mair Morris, 23 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w chymdogion, ffrindiau a pherthnasau am eu holl garedigrwydd tuag ati tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Diolch hefyd i staff a meddygon Ysbyty Eryri am eu gofal drosti. Er mor dda oedd y gofal yno, mae'n braf cael bod yn ôl yn ei chartref ei hunan.

CARNIFAL. Cynhaliwyd y Carnifal ddydd Sadwrn, 11 Awst, gyda'r orymdaith yn cychwyn o Rydfadog, gyda'r Frenhines Angharad, y Dywysoges Elin ac Osian, y Macwy. Roedd tua 200 o bobl a chystadleuwyr yn eu dilyn mewn gwisgoedd ffansi lliwgar. Y beirniaid oedd y Parch Idris a Mrs Thomas, Trefor; Mr Eryl a Mrs Rita Thomas, Caernarfon, a Miss Sian Griffiths, Manceinion. Agorwyd y carnifal yn swyddogol gn Manon Dewi, sydd yn actio Sioned yn y rhaglen deledu Rownd a Rownd. Y rhai a ddaeth i'r brig yn y cystadlaethau oedd:

**Dan 5 oed**
Gwisg Ffansi: 1. Ceian (bugail da); Cydradd ail. Ceri: (Sali Mali) a Cai Heddwyn (Jac y Jwc); Cydradd 3ydd: Elin Dafydd (pot blodau) a Leon (môr leidr).
Hysbyseb gorau: 1. Angharad (*Chinese Takeaway*); 2. Sophie Ree (*Fairy soap*).

**Dan 8 oed**
Gwisg Ffansi: 1. Cynan Parry (*Dennis the Menace*); 2. Shane Roberts (bocsiwr); 3. Chloe (*China lady*).

**Dan 12 oed**
1. Daniel Wyn Jones (*sponge box*); 2. Leah a Karina (*Pirates of the Carribean*); Cydradd 3ydd. Ceinwen Jones (cowboi) a Thomas Parry (clown).

**Oedran Agored**
1. Carwyn Thomas (pry bach tew); Cydradd 2il. Sandra Cyster (Cleopatra) a Julie Jones (Indian); 3. Sophie Taylor (St Trinian).

**Cyplau/grŵp ffansi agored**
1. Alaw, Anna a Keira (*pink ladies*); 2. (môr ladron).
Tebygrwydd rhiant a phlentyn: 1. Dilwyn a Gemma.
Nain ddeniadol: 1. Edwina Thomas.
Pengliniau crynedig: 1. Parch Robert Townsend; 2. Rhianwen Jones.
Addurno bricsen: 1. Awel; 2. Leanne; 3. Sam.
Addurno pram: 1. Edwina; 2. Beca.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i drigolion pentref Deiniolen, pobl busnes a chyfeillion sydd wedi cyfrannu tuag at lwyddiant y Canrifal mewn unrhyw ffordd, a hefyd am gefnogi y gweithgareddau eraill a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos.

Dyma restr o fuddugwyr y noson Mabolgampau.

**Rhedeg dan 4 oed:** 1. Alis Mair Jones; 2. Deian Parry; 3. Gwenno Lona Williams.
**5–6 oed:** 1. Vicky Williams; 2. Beca Jones; Cydradd 3ydd: Cai Heddwyn a Cian Henry Pleming.
**7–8 oed:** 1. Shane Roberts, 2. Iwan Jones; Cydradd 3ydd: Rhys Jones a Shauna Taylor.
**9–11 oed:** 1. Lois Regan; 2. Tomos Parry; 3. Blayne Solomon.
**Agored:** 1. Andrew Hughes; 2. Gavin Taylor; 3. Steven Wardle.
**Ras Berfa, dan 6 oed:** 1. Leon Hughes a Donna; 2. Beca Jones ac Alis Jones; 3. Gwenno L. Williams a Gruffydd S. Williams;
**Dan 8 oed:** 1. Shane Roberts a Rhys Jones; 2. Iwan Jones a Joseff Williams; 3. Leanne Williams a Christopher Lloyd.
**Dan 11 oed:** 1. Huw Owen a Blayne Solomon; 2. Lee Williams a Llŷr Jones; 3. Rhydian Williams a Ioan Owen.
**Agored:** 1. Andrew a Steven; 2. Christopher a Calvin; 3. David a Dylan.
**Ras Tair Coed, 5–6 oed:** 1. Shane Roberts a Rhys W. Jones; 2. Shauna Taylor ac Awel Fflur Ellis; 3. Cai Heddwyn Thomas a Beca Jones.
**Dan 11 oed:** 1. Tyron Lloyd a Ioan Owen; 2. Lee Williams a Llŷr Jones; Cydradd 3ydd: Tomos Parry a Huw Owen, a Stacey Williams a Catrin Medi Jones.
**Agored:** 1. Andrew a Steven; 2. Ceri a Lowri; 3. David a Dylan.
**Ras Wy ar Lwy, dan 4 oed:** 1. Alis Mair Jones; 2. Tara Owen; 3. Gwenno Lon Williams.
**5–6 oed:** 1. Vicky Williams; 2. Beca Jones; 3. Shauna Taylor.
**Dan 11 oed:** 1. Callum Allen; Cydradd 2il: Llŷr Jones a Huw Owen; 3. Catrin Medi Jones.
**Agored:** 1. Lowri A. Jones; 2. Sophie Taylor; 3. Steven Wardle.

DYMUNA Eilir ac Anna (Manceinion) ddiolch i'r ddau deulu, i'w ffrindiau ac i drigolion ardal Deiniolen am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

DYMUNIADAU gorau i bawb o'r ardal sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn gwella'n fuan.

CYNGERDD. Bydd cyngerdd yn cael ei gynnal er budd apêl Deiniolen at gynllun EFE (Efengyl dros Fro *Eco'r Wyddfa*) nos Wener, 16 Tachwedd, yn Festri Capel Ebeneser. Arweinydd y noson fydd Gwyn Parri a bydd yn cyflwyno'r artistiaid canlynol: Emyr a Siân Gibson; John, Anest a Lois Eifion; Annette Bryn Parri; Lindsay Vaughan Parry; Elfed Morgan Morris; Côr Meibion Dyffryn Peris; Band Ieuenctid Seindorf Deiniolen a phlant Ysgol Gwaun Gynfi. Tocynnau ar gael gan Eirlys Hughes (01286 870 898) neu unrhyw un o swyddogion yr Ysgol Sul.


EISTEDDFOD GWAUN GYNFI. Mae rhestr testunau'r Eisteddfodd allan erbyn hyn. Fe'i cynhelir ar ddydd Sadwrn, 27 Hydref. Cofiwch gefnogi.

NEWYDDION. Fel y gwelwch, nid yw'n ymmdangos fod llawer i'w adrodd o'r pentref y mis hwn. Mae'n bwysig fod newyddion yn cael eu gyrru atom i adrodd am yr hyn sy'n digwydd yn y pentref, boed yn ysgafn neu beidio.

Y CLWB PÊL-DROED. Mae'r canlyniadau yn dangos mai dechrau siomedig sydd wedi bod i ddechrau'r tymor newydd. Ond, mewn gwirionedd, mae'n cymryd amser i dîm newydd gael trefn ar y cae. Nid ydynt wedi chwarae'n wael iawn, camgymeriadau sydd wedi gadael y goliau i mewn, ond braf cael gweld y tîm yn curo ail dîm Tref Caernarfon o 7 gôl i 4 yn ddiweddar. Gobeithio y bydd hyn yn ysgogi'r hogia o hyn ymlaen.


FFAIR GREIRIAU YNYS MÔN
Maes Sioe Môn
Mona (ar yr A5)
Sadwrn a Sul
6/7 Hydref 2007
o 10.00am – 5.00pm
Mynediad: £2.50
Parcio am ddim
Lluniaeth ardderchog
Arwerthwyr Creiriau a Hen Bethau o bob rhan o Brydain yn arddangos a gwerthu hynafion o ansawdd da

GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

*Enillydd Tebygrwydd rhiant a phlentyn: Dilwyn Williams a Gemma.*



**Tîm Pêl-droed Dan 9 oed Deiniolen**


*Y tîm buddugol yng nghystadleuaeth Tlws yr Eco, gan drechu Llanberis o 2–0 yn y ffeinal. Y sgorwyr oedd Cai Owen a Lois Regan.*



*Y Frenhines Angharad, Osian y Macwy a'r Dywysoges Elin.*



Tomos Owen Parry – Clown, Rhys Owen Parry – Glyndŵr a Ceinwen A. M. Jones – Cowboi.



David Parry – Homer Simpson.



Rhianwen Jones – Robin Hood.

# O SIAMBAR SELWYN

Mae'n daith go faith i Gernyw. Tua deg awr o leia hefo trên. Ond, hefo dreifar go dda, mae'n bosib mynd yr holl ffordd o Benisa'rwaun i Penzance mewn cwta saith awr. Na, nid fi oedd y dreifar ond fy nghyfaill, Geraint Lloyd Owen. Roeddan ni'n dau wedi cael ein dewis i gynrychioli Gorsedd y Beirdd ar achlysur blynyddol Gorsedd Kernow, a gynhelir bob blwyddyn ar y Sadwrn cyntaf ym mis Medi.

Eleni Penzance oedd tref yr Ŵyl. Roeddwn i wedi bod yno sawl tro ar dripiau diwrnod pan oeddem yn aros mewn mannau fel St Ives, Newquay a Falmouth. Os byddwch yn aros mewn un o'r llefydd hyn, gellwch fentro y byddwch yn cael cyfle i fynd i Lands End a threulio awr neu ddwy yn Penzance ar y ffordd yno. Ond dyma'r tro cynta i mi dreulio penwythnos yn y dref agosaf i ben-draw-Lloegr.

Cefais y fraint o gynrychioli'r Orsedd yng Nghernyw unwaith o'r blaen pan gynhelid hi yn y dref gyfagos, Hayle. Y diweddar Delme Bro Myrddin, Arwyddfardd yr Orsedd, oedd yn cadw cwmni i mi y tro hwnnw.

Does 'na ddim meini yng nghylch Gorsedd Kernow, dim ond llwyfan go fawr ar ochor y cylch, gyda chadair farddol i'r Archdderwydd neu 'Barth Mur', fel y cyfeirir at y swydd. Gyda llaw, merch yn dwyn yr enw Gwenenen oedd Barth Mur Cernyw eleni, efallai bod rhai ohonoch a fu ym Mhrifwyl Sir y Fflint wedi'i gweld ar y llwyfan yn ystod y prif seremonïau. Tair blynedd ydi ei thymor hithau hefyd. Roedd 'na seddau i Geraint a finna, ynghyd â'r cynrychiolwyr o Lydaw, ar y llwyfan, a disgwylid i mi ddeud gair byr yn ystod y seremoni.

Seremoni hynod o debyg i'n Seremoni Cyhoeddi ni ydi seremoni Cernyw. Gorymdaith drwy'r dref, gyda meiri a swyddogion y Cynghorau cyfagos yn dilyn y band. Roedd ein gwragedd, Myra a Iola, yn gorfod cerdded yn yr orymdaith hefyd o Neuadd y Dref i'r parc cyfagos.

Roedd y corn gwlad (braidd yn ansoniarus) yn galw i bedwar ban byd. Y Barth Mur yn galw am heddwch. Cyd-siantio Gweddi'r Orsedd (Pysdaw an Orseth) sy'n hynod o debyg i'n gweddi orseddol ni:

'Rho o Ddew dha Wyth
Hag yn Gwyth, Nerth,
Hag yn Nerth, Skyans,
Hag yn Skyans, Gothvos,
Hag yn Gothvos, Gothvos an Ewn,
Hag yn Gothvos an Ewn, y Gra,
Hag yn Gra, Gra pup Bewnans,
Hag yn pup Bewnans, Cara Dew,
Dew ha pup-oll Dader.'

Ceir dawns flodau i'r un miwsig yn hollol a'n dawns flodau ni, ac fe gyflwynir y flodeuged o ffrwythau'r maes gan ferch ifanc a elwir yng Ngorsedd Cernyw yn Arglwyddes Cernyw.

Derbyniwyd aelodau newydd i'r Orsedd a gwobrwywyd nifer o blant a phobl ifanc am iddynt lwyddo mewn gwahanol gystadlaethau yn ymwneud â'r Gernyweg.

Roedd 'na stondinau ar y maes yn gwerthu llyfrau yn ymwneud â Chernyw a'i thraddodiadau. Canwyd emyn i gofio am y rhai a fu farw yn ystod y flwyddyn, a diddorol oedd sylwi fod y Brenin Arthur yn cael sylw mawr yng Ngorsedd Cernyw. Wrth gymryd llw i fod yn deyrngar i Gernyw mae'r holl orseddogion yn datgan: *'Nyns yn, marow Myghtern Arthur'*, sef 'Nid marw'r Brenin Arthur'. Ac i gloi y seremoni fe ganwyd 'Bro Goth Agan Tasow', ia, Hen Wlad fy Nhadau. Roedd Geraint, Iola, Myra a minnau yn gyfarwydd â'r dôn, os oeddem yn cael ychydig o drafferth gyda'r ynganu.

Te i ddilyn yn Neuadd y Dref, yn cynnwys Pastai Cernyw, wrth gwrs, a chyngerdd yn yr hwyr a thro i Lands End fore Sul. Penwythnos difyr iawn ond hynod o flinedig. Does 'na'r un Stedfod fel y cyfryw ynghlwm wrth Orsedd Cernyw, dim ond y seremoni arbennig hwn. Mae'n orfodol i ni fynd â'n gwisgoedd gorseddol gyda ni, fel y disgwylir i ni wneud pan yn ymweld â Gorsedd Llydaw. Ond, pan fyddaf yn ymweld â'r Mod yn yr Alban, neu yr Oriachtas yn yr Iwerddon, neu i Orsedd Manaw, does dim angen mynd â'r gwisgoedd – a diolch am hynny.

Cychwyn am adre yn gynnar fore Llun a'r pedwar can milltir yn chwalu o'n blaen. Dwi ddim yn meddwl fod 'na gymaint o gamerâu y Prif Gopyn ar draffyrdd Lloegr, – wel dyna rwy'n obeithio – a Geraint hefyd. Tawedog iawn oedd y merched ar ran o'r daith adre. Ys gwn i pam...?


Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

BWS BACH AR LOG



Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan
(01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED
Croeso. Croesawyd 8 o blant bach newydd i'r dosbarth Meithrin, sef Ellni, Abbi, Georgia, Izabel, Aron, Cai, Carwyn a Liam. Maent i gyd wedi setlo i lawr yn dda iawn yn ein plith. Rydym hefyd yn croesawu 6 o blant sydd wedi ymuno â ni mewn gwahanol ddosbarthiadau, sef Twm ac Owain wedi symud o dde Cymru; Lowri ac Elin o Awstralia; Antonia o Ddeiniolen a Megan o Cleveleys, hwythau i gyd yn prysur wneud ffrindiau newydd.
Gwersi Nofio. Mae 35 o blant dosbarthiadau 3, 4, 5 a 6 wedi dechrau ar gyfres o wersi nofio sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar fore dydd Iau. Mae pawb yn mwynhau.
Fandaliaeth yn yr ysgol eto!.
Trist iawn yw gorfod sôn am y difrod a wnaethpwyd i'r tŷ bach twt a'r sied cadw teganau yng nghefn dosbarth y babanod ar dir yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf (fel y gwelwch yn y lluniau). Mae'r plant wedi bod yn brysur yn casglu arian i dalu am y tŷ bach twt trwy gynnal taith gerdded noddedig, gan eu bod wrth eu bodd yn chwarae ynddo gyda'r teganau.
PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Medi a'r enillwyr Iwcus oedd: 1. Brenda Richardson, Llys Helyg; 2. William Oliver, Gors, Brynrefail; 3. Anwen Huws, Carmel.
Bwriedir cynnal Noson Wasael i ddathlur' Nadolig yn y Neuadd Gymuned yr wythnos cyn yr W'yl. Bydd stondinau, raffl a phwnsh a mins pei ar gael. Gobeithir y cawn yr un gefnogaeth â'r llynedd.
YSGOL SUL BOSRA. Gan fod y plant wedi mwynhau'r hanes am William Morgan, Mari Jones a Thomas Charles, trefnwyd trip i'r Wybrnant a'r Bala.

Ar fore Sadwrn hyfryd o braf, 15 Medi, aeth llond bws i ymweld â Thŷ Mawr a Chapel Tegid. Mwynhawyd anerchiad hynod ddifyr yng nghartref yr Esgob William Morgan ac roedd pawb wedi mwynhau eu picnic ar y lawnt.

Mae Tŷ Mawr mewn mangre digon anghysbell ond roedd gennym ddreifar anhygoel o'r enw Bob. Fel 'Bob y Bildar' roedd 'Bob ein Dreifar' ni yn amyneddgar a thu hwnt o fedrus. 'Bob y Dreifar – ef â'i datrus'. Llywiodd ei fws moethus yn anhygoel o fedrus drwy'r lonydd culion, gan sicrhau trip i'w gofio i bawb.

Gan fod cerflun newydd o Owain Glyndŵr ar Sgwâr Corwen, a hithau'n ddiwrnod Glyndŵr drannoeth, dydd Sul 16 Medi, yn garedig iawn aeth Bob â ni i Gorwen ac roedd y plant a'r oedolion yn ddiolchgar iawn.

Ymlaen wedyn i'r Bala dirion deg i weld cerflun o Thomas Charles o flaen Capel Tegid, sef sylfaenydd yr Ysgolion Sul a Chymdeithas y Beiblau. Sylwyd ar y plac ar fur Banc Barclays yn nodi cartref Thomas Charles a'r union fan y derbyniodd Mari Jones ei Beibl bach. Treuliwyd orig fach yn nhref y Bala i gael paned neu siopa cyn cychwyn am adref wedi trip hynod addysgol a diddorol.

Dymunir diolch i'r athrawon am eu gwaith gyda'r plant, ac yn arbennig i Anti Liz am drefnu'r trip llwyddiannus. Diolch o galon i Bob y dreifar, i Anti Jean am sicrhau gowbr raffl i bob un o'r plant ac i bawb o'r oedolion a brynodd raffl tuag at Apêl y Capel. Mawr ddiolch hefyd i Mr Crap, Waen, am ei rodd arbennig i bob plentyn ar y bws.
APÊL Y CAPEL. Nos Wener, 14 Medi, cynhaliwyd cyngerdd ardderchog gan Gôr y Brythoniaid, dan arweiniad John Eifion, yn Ysgol Brynrefail. Eu cyfeilydd dawnus oedd Elizabeth Elis. Mwynhawyd rhaglen amrywiol dors ben gan y Côr. Yn y rhan gyntaf swynwyd y gynulleidfa gyda'r 'Tangnefeddwyr', rhan o *Les Miserables*, yr Anthem Geltaidd, 'O mor bêr yn y man', *O Sole mio*, a 'Gwahoddiad'.


Nid un unawdydd oedd ganddynt, ond dau, sef John Eifion y tenor, a Goronwy Hughes, y baswr o Landdoged. Gwefreiddiwyd ni gyda'u 'Because', 'Bryniau Aur fy Ngwlad', 'Dee River', 'Elen Fwyn' 'Yn Llaw fy Nuw' ac 'Aros mae'r Mynyddoedd Mawr'.

Yn ystod yr egwyl tynnwyd y raffl ac roedd 10 gwobr. Aeth y wobr gyntaf, sef hamper o nwyddau, i ymwelwyr o America.

Yn yr ail ran, mwynhawyd eitemau o waith Verdi, o'r sioe *Carousel*, *American Trilogy*, 'Si Hei Lwli' ac i gloi'r cyngerdd bendigedig cafwyd Gweddi Affricanaidd, a hynny'n angerddol.

Diolchodd Elizabeth Jones i'r trefnwyr, i'r prifathro a'r gofalwr, i'r gynulleidfa a ffrindiau a ddaeth o bentrefi'r Eco i gefnogi ac, yn anad neb, i John Eifion a Chôr y Brythoniaid am noson hwyliog a thu hwnt o soniarus a chofiadwy.

Gwnaed elw sylweddol o dros £400 a hynny wedi talu'r costau. Felly, unwaith yn rhagor, diolch i bawb.
PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Awst oedd Carole Porter, Rhif 8.
CARTREF NEWYDD. Croeso cynnes i Mr a Mrs Herd, Owain a Twm, sydd wedi symud i fyw o dde Cymru a chartrefu yn 'Cartref'.
CYDYMDEIMLIR yn ddwys iawn â Mrs Sali Griffith (16 Bryn Tirion gynt), a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl o golli mab i Mrs Griffith, gŵr a thaid a brawd annwyl iawn, sef Mr Ieuan Griffith, Caernarfon.
PEN-BLWYDD ARBENNIG.
Llongyfarchiadau i Wil Jones, 24 Bryn Tirion ar gyrraedd 50 oed ar 28 Medi. Dymuna Wil ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac yn arbennig i Jean am drefnu'r parti.
NOSON BINGO. Cynhelir Noson Bingo yn y Neuadd Gymuned, nos Iau, 25 Hydref, am 6.30 o'r gloch. Bydd amryw o wobrau a raffl, gyda'r elw'n mynd i Gronfa Pensiynwyr y Pentef.
EGLWYS SANTES HELEN
DIOLCHGARWCH. Dydd Sul, 21 Hydref, am 10.00 o'r gloch gweinyddir y Cymun Bendigaid. Am 3.30 y pnawn cymerir rhan gan y plant, gyda phregethwr gwadd.
ADDURNO'R EGLWYS. Addurnir yr Eglwys fore Sadwrn, 20 Hydref, am 9.00 o'r gloch ymlaen.
GYRFAON CHWIST. Fe gynhelir Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys bob nos Fawrth, am 7.30 o'r gloch.
YSGOL SUL. Mae'r Ysgol Sul wedi ailgychwyn yn Neuadd yr Eglwys ac fe'i cynhelir bob Sul cyntaf a'r trydydd am 10.00 o'r gloch. Estynnir croeso i aelodau hen a newydd.
PEN-BLWYDD ARBENNIG.
Llongyfarchiadau i Heulwen, 12 Bryn Eglwys, ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar 30 Medi. Ymlaen rŵan i'r 'Bus Pass'!



*Plant yr Ysgol Sul y tu allan i Dŷ Mawr.*


*Edmygu'r cerflun yng Nghorwen.*


*'Beibl i Bawb o Bobl y Byd.'*

# UN FUNUD FACH

## NEWID BYLB

Mae yna lawer o bethau na fedra i eu gwneud; a chofio jôcs yw un ohonyn nhw. Fel y jôc honno sy'n gofyn 'Faint o bobl sydd eu hangen i newid bylb?' Doeddwn i ddim hyd yn oed yn cofio fod yna amrywiaethau di-rif arni. 'Sawl athro sydd ei angen i newid bylb?'; 'Sawl meddyg sydd ei angen i newid bylb?' neu 'Sawl siopwr sydd ei angen i newid bylb?' Peidiwch â gofyn i mi! Ddeudais i wrthych chi, fedra i ddim cofio jôcs.

A sawl gweinidog sydd ei angen i newid bylb? Dim ond un. Ond mae newid y darn weiran yna sy'n dal y bylb yn fater arall! Meddyliais yn siŵr y gallwn osod y daliwr bylb newydd fy hunan, ond i mi gymryd digon o ofal. Ac mi ges i hwyl dda arni, a llwyddo'n eitha didrafferth i ddadfachu'r un oedd wedi torri. Roedd hynny'n hawdd. Gosod yr un newydd oedd yn anodd! Awr yn ddiweddarach roeddwn wrthi o hyd. A phan sylweddolais fod gennyf un weiran yn ormod yn ôl fy syms i, roedd raid ildio a galw am help. Taswn i ond wedi sylweddoli ar y dechrau nad oedd angen tynnu'r holl beth oddi ar y nenfwd byddwn wedi dod i ben yn ddidrafferth!

A byddai pethau dipyn rhwyddach hefyd petaem ond yn sylweddoli beth sydd angen ei wneud i drwsio'n perthynas â Duw. Mae pethau'n haws o lawer nag yr ydym ni yn mynnu eu gwneud. Fe fynnwn ni fod angen gwneud hyn ac arall. Fe fynnwn ni bwysleisio'r pethau y credwn ni sydd angen eu gwneud er mwyn plesio Duw: cadw'r Deg Gorchymyn; caru Duw; caru'n gilydd; helpu'r tlodion; bod yn grefyddol; peidio rhegi; maddau i bobl; bod ydy ei bod mor anodd gwneud hynny. O leiaf, mae'n anodd eu gwneud yn berffaith, fel y mae Duw yn ei ddisgwyl gennym. Dyw'r drafferth a gefais i drwsio'r golau yn ddim o'i gymharu â'r drafferth a gaf i wneud y pethau hyn bob dydd.

Sylweddoli na fedraf eu gwneud yw'r cam cyntaf. Sylweddoli nad oes raid i mi eu gwneud yw'r ail gam. Mae Duw yn gwybod na fedraf i drwsio'r berthynas ag ef. Dyna pam yr anfonodd ei Fab Iesu i wneud y gwaith drosof. A'r unig beth sydd angen i mi ei wneud yw credu fod Iesu wedi trwsio'r berthynas rhyngof â Duw trwy gymryd fy mhechod – yr union beth oedd yn difetha'r berthynas honno – a goddef ei ganlyniadau ar Galfaria.

Mae'n haws o lawer nag a feddyliaf. Dim ond credu sydd angen mai Iesu sy'n trwsio pethau; ac o gredu hynny, galw arno. A gwell galw ar unwaith. I beth y difethaf egni ac amser yn ymdrechu i wneud yr hyn na fedraf ei wneud, ac nad oes angen ei wneud chwaith?

JOHN PRITCHARD

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384


**CYNGOR CYMUNED LLANRUG**

Yn eisiau

**Clerc i'r Cyngor**

Am fwy o wybodaeth cysyllter â Mrs Mair Lloyd Hughes ar

**(01286) 677263**

Dyddiad cau: 10 Hydref 2007


YR YSGOL GYNRADD
Croeso'n ôl i bawb ar ddechrau tymor yr hydref. Mae'r plant i gyd – o'r lleiaf i'r mwyaf – wedi setlo yn andros o dda.

Rydym hefyd yn croesawu aelod newydd o'r staff, sef Miss Emma Phillips, sydd yn gwneud y gwaith CPA.

Genedigaeth: Ganwyd Cai Llŷr i Rhian Jones, Blwyddyn 6. Mae pawb yn edrych ymlaen i'w gyfarfod. Llongyfarchiadau mawr i Mr a Mrs Jones!

Miss Sian Pritchard sydd yn dysgu blwyddyn 6 yn ystod absenoldeb Rhian Jones.

Gan na fu'r tywydd yn ffafriol cyn diwedd tymor yr haf, cynhaliwyd ffair Fedi eleni, gyda chyfle i redeg o gwmpas yr iard yn hytrach na'r cae, gan ei bod – eto – yn bwrw glaw! Bu'n noson lwyddiannus. Diolch i bawb a gefnogodd.

Aeth nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 i aros i Wersyll yr Urdd, Glanllyn a chafwyd llawer o hwyl wrth ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau.

Y SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Medi oedd: £20: S. Owen, 56 Bro Rhythallt; £7: M. Roberts, Tai Minffordd; £5: A. Parry, Bryn Heli.

BABI NEWYDD.
Llongyfarchiadau mawr i Maldwyn a Siân Price Morris, 44 Nant y Glyn, ar enedigaeth mab bach, Ifan, brawd newydd i Elliw a Iolo, ac ŵyr newydd i Goronwy a Glenda, Cefn Rhythallt, a Nain Vera, Llanberis.

PLAID CYMRU. Nos Fercher, 12 Medi, daeth Alun Ffred Jones AC, at gangen Llanrug i sôn am y datblygiadau diweddaraf yn y Cynulliad yng Nghaerdydd. Gyda Phlaid Cymru yn awr yn rhan o lywodraeth Cymru, roedd yn ddiddorol clywed hanes y clymbleidio yn dilyn yr etholiad ym mis Mai. Roedd y ddogfen *Cymru'n Un* yn rhoi rhaglen sylweddol i'r llywodraeth am y blynyddoedd nesaf, ac anogai Alun Ffred aelodau'r gangen i'w darllen a'i hastudio'n ofalus, a phenderfynu ar eu blaenoriaethau. Fel llefarydd y Blaid ar Gyllid a Gwasanaethau Cyhoeddus, byddai'n falch o gael gwybod beth oedd yn bwysig yng ngolwg pobl Arfon.

Aeth cynrychiolaeth dda o'r gngen i Gynhadledd Flynyddol y Blaid yn Llandudno y dyddiau canlynol.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, 11 Medi, am 7.30 yn y Sefydliad Coffa cychwynnwyd y noson gyda chân Merched y Wawr. Estynnwyd croeso cynnes iawn i bawb gan y Llywydd, Megan Roberts, a llawenhawyd o weld wynebau newydd a chyn-aelodau wedi ailymaelodi. Llongyfarchwyd pawb o'r fro fu'n sefyll amrywiol arholiadau a dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol. Anfonwyd cofion at fam-yng-nghyfraith Eryl a mam Myfanwy, gan ddymuno adferiad iechyd iddynt. Cydymdeimlwyd â theulu Mrs Inigo Jones, un a fu'n aelod ffyddlon o'r gangen flynyddoedd yn ôl. Cafwyd dau lythyr gan Gwmni Gwyliau Thomas Cook yn dilyn cwyn gan y gangen am y diffyg defnydd o'r Gymraeg.

Bydd Margaret Parry yn 'abseilio' o Dŵr Marquis er budd Deillion Gogledd Cymru a gellir ei noddi os oes rhywun yn dymuno cefnogi'r achos.

Mae cardiau Nadolig, er budd gwaith Ymchwil Gynacolegol Ysbyty Gwynedd ar gael gan Eirlys Pierce, neu drwy'r gangen – 12 cerdyn chwaethus am £4.50.

Atgoffir chwi y cynhelir Noson Grefft yn Nhregarth ar 3 Tachwedd, gyda Eira Huws a Carol Smith. Hefyd cynhelir Cwis Hwyl ar 23 Tachwedd.

Gwestai'r noson oedd Eira Huws, chwaer y Llywydd. Nid dyma'r tro cyntaf i ni fwynhau ei chwmni ac mae'r ffaith ei bod wedi dod yn ôl atom yn cadarnhau fod pawb yn gwybod fod noson hwyliog a gwledd i'r llygaid o'u blaenau. Ac felly'n union y bu! Bwrlwm o siarad ffraeth a gwledd o weld y gwaith llaw cywrain. Difyr oedd yr hanes amdani yn cychwyn ar y diddordeb o gwiltio gyda llaw a hithau, yn ôl pob hanes, ofn nodwydd ddur ar un cyfnod! Roedd pawb wedi dotio at y cwilt o Ferched Daniel Owen a'r cwilt hydrefol *'Just a Hint of Green'*.



Nid gwnio yn unig yw ei dawn, ond gall nyddu ei gwlân ei hun – ie, hyd yn oed blew ci! Dangosodd sawl gwyntyll amryliw allan o asgwrn a sidan, un gyda drych bach ar yr ochr, yn union fel drych car!

Ei diddordeb diweddaraf yw Tattin – un cwlwm bach, tebyg i lês. Roedd sawl enghraifft o'r Tattin ar y bwrdd ac roedd pob un mor gelfydd.

Dyma ddwy chwaer hynod dalentog, un yn gallu creu'n odidog gyda nodwydd ddur a'r llall a'i dwylo'n gadarn ar y piano a'r delyn. Ond o gofio, roedd eu tad yn gerddorol a'u mam yn wniadwraig. Felly, 'Hysbys y dengys y ddwy o ba radd y bo'u gwreiddiau'. A thrwy ddyfynnu Dic Aberdaron y clowyd y noson gan Eira: 'Tydi pawb ddim yn gwirioni 'run fath.'

Diolchodd Megan i'w chwaer am noson llawn hwyl. Diolch i genod Penisarwaun am y baned. Enillydd y raffl oedd y Llywydd, Megan Roberts.

Ar 9 Hydref, bydd arddangosfa 'Gemwaith Cyfoes Tlws' gyda Rhian o Langefni.


**ARVONIA**

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.




Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

Ffôn/Ffacs: **(01286) 650291**

**Ar Agor**
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn

**Ar Gau**
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Daeth nifer dda ynghyd i'r cyfarfod cyntaf o'r Clwb a braf oedd cael croesawu y Llywydd, Goronwy Jones, ac yntau wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Y siaradwr gwâdd oedd y Parchedig Marcus Wyn Robinson a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo yn olrhain hanes y Rhufeiniaid yng Nghaernarfon. Roedd yn ymfalchïo yn y ffaith iddo gael ei eni ar dir Segontium ac felly mae diddoreb mawr ganddo mewn hanes. Diolchwyd iddo gan Jenkin Griffiths. Bydd y cyfarfod nesaf ar 2 Hydref, yng nghwmni Aled Taylor, Waunfawr.

EISTEDDFOD. Diolch i bawb am gefnogi'r Noson Goffi yn ddiweddar, am y rhoddion at yr amrywiol stondinau ac i Margaret am y llefrith. Gwnaed elw o £174. Mae'r testunau ar gael yn Siop Treflyn a'r Swyddfa Bost. Os oes unrhyw un yn dymuno cyflwyno rhodd ariannol tuag at gostau'r Eisteddfod, croeso i chi gysylltu â'r Trysorydd, Gwyneth Jones (670312), neu un o'r Swyddogion.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Bydd y cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd nos Fawrth, 16 Hydref am 7.15 yn Festri'r Cysegr. Mae rhaglen amrywiol wedi'i threfnu felly dewch draw i gefnogi'r gweithgareddau.

DIOLCH. Dymuna Beti Owen, Crud yr Awel, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion ymhell ac agos, am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da ar ei phen-blwydd arbennig. Diolch i Gôr Lleisiau Llifon am y swper slei a'r penillion yn yr Afr, Glandwyfach.

DIOLCH. Dymuna Nan Owen, Berwyn, Saron, ddiolch o galon i deulu a ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig ym mis Awst. Diolch yn enwedig i Carys, y ferch, am drefnu'r parti mor ddistaw!! Diolch i bawb.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr gwobrau Gorffennaf oedd £40: (112) Miss A. Humphreys, Ty'n Rhos; £20: (143) Eirlys Sharpe, Ael y Bryn; £10: (10) Wendy Grail, 19 Y Ddôl.

MERCHED Y WAWR.
Cofnodion y Cyfarfod Agoriadol.
Croesawodd y Llywydd, Margaret Druce, yr aelodau i gyd gan roi croeso arbennig i aelod newydd, sef Pat Thomas o Gaernarfon. Hefyd croesawodd y diddanwyr yn gynnes iawn, sef doniau o bentref Bethel. Dwy ohonynt wedi eu geni a'u magu yma ym Methel, sef Eleri ac Elen (Robinson) a gŵr Eleri, Jonathan. Cafwyd adloniant hyfryd gan y tri ac roedd Jonathan hefyd yn ychwanegu trwy ganu unawdau ac ymuno â'r genod mewn triawdau. Ef oedd yn cyfeilio hefyd. Fe roddodd y tri eu hamser yn rhad ac am ddim ond cyflwynwyd rhodd fach i Jonathan a blodau bob un i'r genod. Cafwyd swper i ddilyn, wedi ei baratoi gan aelodau'r Pwyllgor. Diolchwyd iddynt yn gynnes iawn gan Ann Elis, Cilgerran.

Llongyfarchwyd holl blant a ieuenctid y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau yn ystod yr haf. Fe ddathlodd pedair aelod ben-blwyddi arbennig, sef Bet Owen ac Elizabeth Evans, a phen-blwydd hapus yn 80 oed i Megan Jones. Deallwn hefyd fod ein Llywydd, Margaret Druce, yn dathlu yr wythnos yma.

Llongyfarchwyd dwy o'n haelodau ar fod yn neiniau unwaith eto, sef Rita Williams ar enedigaeth ŵyr, Iago Llewelyn, ac Ann Elis, ar enedigaeth wyres fach, Siwan Haf. Anfonwyd ein dymuniadau gorau am briodas dda i dri phâr o'r aral, sef Dyfan Elis, Cilgerran, a'i wraig, Lucy; Lois Druce, Arfryn, a'i gŵr, John, ac Irfon Price a'i wraig, Ann.

Llongyfarchiadau i ddwy aelod ar eu llwyddiant yn Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru, Caernarfon, sef Siân Davies, Bethel a Joyce Roberts, Y Felinheli. Derbyniodd Siân nifer o wobrau cyntaf, ail a thrydydd am ei gwaith llaw a'i lluniau a Joyce yn cael y wobr gyntaf am drefnu blodau, ail am wneud jam a thrydydd am fara brith. Aeth y ddwy ymlaen i Sioe Amaethyddol Llanelwedd a chafodd Siân gydradd ail am ei lluniau, ond ni bu lwc efo'r blodau!

Llongyfarchwyd Siân Davies eto ar ei gwaith canmoladwy yn creu'r Llyfr Lloffion ac enillodd ganmoliaeth fawr. Gofynnwyd am wirfoddolwyr i wneud y Llyfr Lloffion ar gyfer y flwyddyn yma ac fe enwyd Siân a chais ar i'r Llywydd fynd ar ei gofyn am y ffafr fawr yma eto, gan fod cryn dipyn o waith paratoi ar y Llyfr Lloffion.

Llongyfarchwyd rhai ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint eleni – un oedd Alys Jones a ddaeth i'r brig wrth ysgrifennu pennod o Hunangofiant. Anogwyd Alys i barhau i gwblhau'r llyfr a rhoi noson hwylus i ni ym Merched y Wawr. Llongyfarchiadau hefyd i Siôn Elwyn (mab Deilwen Hughes) a Lois Eifion ar eu llwyddiant gyda'r ddeuawd offerynnol. Llongyfarchwyd Nia Môn, merch Siân Davies, a gipiodd ddwy wobr yn y Babell Lên.

Llongyfarchiadau i ddau bâr sydd yn dathlu pen-blwydd priodas arbennig, sef Ann ac Arwel Elis yn dathlu Priodas Arian a Nora a Wil Parry ar eu Priodas Ruddem.

Cydymdeimlwyd â Glenys Griffith sydd mewn profedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith ac i Rita Dauncey Williams sydd hefyd mewn profedigaeth.

Anfonwn ein cyfarchion gorau at Sheila Roberts, sydd yn anffodus wedi cael damwain ac wedi torri ei chlun. Deallwn ei bod wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Daeth cais i law gan yr Archdderwydd Selwyn Iolen, a fydd yn lansio ei hunangofiant yma yn Neuadd Bethel ar 27 Tachwedd, am gymorth Merched y Wawr i baratoi lluniaeth ar gyfer y lansiad. Daeth nifer o enwau i law eisoes.

Cynhaliwyd y Penwythnos Preswyl ym Mangor eleni ac fe fu rhai o aelodau Merched y Wawr Bethel yn canu yn y côr ar fore Sul, 16 Medi.

Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Rhanbarth yng Nghaernarfon ar 24 Medi am 7.30 o'r gloch. Dylai'r llywydd, yr ysgrifennydd a'r trysorydd fod yn bresennol.

DOSBARTH NOS. Fe fydd cyrsiau Trefnu Blodau (Coleg Menai) yn cychwyn ar 26 Medi am 7.15 yr hwyr. Mae lle i ychydig yn rhagor, dim ond i chi gysylltu â Choleg Menai ar y Maes yng Nghaernarfon am fanylion pellach a ffurflen ymaelodi.




**Problem gyda'ch cyfrifiadur?**

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**
Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

**Sychlanhau • Altro**
**Ailwnïo**
**Gwasanaeth**
**Casglu a Danfon**

54 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: **870088**

**SWIGOD A SEBON**



**GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO**



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:
**Swyddfa Etholaeth**
**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

**Harddwch eich cartref gyda**

***FFENESTRI CELTIC*** *WINDOWS*

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**
**CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
*Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris*

**HEN YSGOL GLANMOELYN**
**LLANRUG LL55 2RG**

NHBC **(01286) 678618** (dydd)
**(01248) 670081** (nos)

# Colofn y Plant

## Clwtyn Criw Triw

**Blant,**

Dyma hi'n fis Hydref, a'r mis hwn mi rwyf am – wel, wel, ia'n wir, – edrychwch! Mwynhewch y posau! Mi adawaf yr atebion ar waelod y dudalen ar eu pennau i lawr ond peidiwch â meddwl, da chi, fel y gwna Smonach Bach Dwbridwbridw, mai yn Awstralia yr ydach chi! Mi fydd yn rhaid i chi, fodd bynnag, droi y papur bro oriwaered, hynny ydi, ar ei ben i lawr, er mwyn cael gweld yr atebion. Hwyl arni! Ac os cewch drafferth, cofiwch ofyn am gymorth mam, dad, brawd, chwaer, neu hyd yn oed fodryb, ewythr, nain a thaid, ac athrawon yn yr ysgol, ac ia, eich holl gyfeillion ysgol yn y pentref!


## Faint o gapia a hetia sydd yn Siop Capia a Hetia Cwm Hetia?



## Fedrwch chi gyfrif y dyddiau ym Mhentre Go'?

- Sawl diwrnod sydd mewn wythnos?
- Sawl diwrnod sydd ymhob pythefnos?
- Sawl diwrnod sydd ym mis Hydref, a beth a elwir y dydd ola or mis?
- Os oedd hi'n ddydd Llun heddiw, pa ddiwrnod fydd hi ymhen wythnos?
- Os ydi Sioned wedi ei geni ar ddydd Mawrth, 9 Hydref, ac y mae hi eleni, sef y flwyddyn 2007, yn 6 mlwydd oed, faint fydd ei hoedran ar ddydd Mawrth, 9 Hydref 2009?

## Pa un o'r rhain sydd o'i le yn yr ystafell chwarae yng nghartref Alun a Carys ym Muarth Twt, Pentref Bigil?




**Perchnogion Newydd!**
yn parhau'r traddodiad gwych

**WAVELL'S**

**Bryn ac Angela Williams**

London House, LLANRUG

Ffôn:
**(01286) 673574**

**PEN CIGYDDION Y FRO**

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU**
**DEWCH ATOM NI!**


## ATEBION

**Faint o gapia a hetia sydd yn Siop Capia a Hetia Cwm Hetia?**

Y mae 'na dair het a phedwar cap i gyd, sef 3 + 4 = 7.

**Cyfrif y dyddiau ym Mhentre Go'**

- 7 diwrnod sydd ymhob wythnos.
- 14 diwrnod a geir ymhob pythefnos.
- Y mae 'na 31 diwrnod ym mis Hydref. Calan Gaeaf ydyw'r diwrnod olaf o'r mis.
- Os yw hi'n ddydd Llun, yna mae hi'n ddydd Llun hefyd ymhen wythnos.
- Mi fydd Sioned yn 8 mlwydd oed, pen-blwydd hapus iddi!

**Pa un o'r rhain sydd o'i le yn yr ystafell chwarae yng nghartref Alun a Carys ym Muarth Twt, Pentref Bigil?**

**Gwenli, yr aderyn sy'n canu yng nghoed Llyn Padarn**



Teganau ydi'r gweddill

# Ysgol Brynrefail



*Y ddau ddisgybl a lwyddodd i gasglu'r swm mwyaf o arian – dros £200 rhyngddynt – Taliesin Roberts ac Adam Stuhfelder – gyda chynrychiolwyr yr Abbey.*

## Rhodd gan Abbey

Yn ystod tymor yr haf trefnwyd taith gerdded noddedig gan yr ysgol ar y cyd â Chymdeithas Adeiladu'r Abbey ar gyfer disgyblion blynyddoedd 7 i 9. Llwyddodd y disgyblion i gasglu dros £2,500 o bunnau ac felly, cytunodd y gymdeithas adeiladu i unioni'r cyfanswm trwy gyfrannu punt am bunt. Golyga hyn fod coffrau'r ysgol wedi chwyddo gyda'r swm hynod anrhydeddus o dros £5,000, a fydd yn gymorth aruthrol wrth drefnu amryfal weithgareddau yn ystod y flwyddyn.

## Taith Blwyddyn 9

Un o deithiau'r Adran Gymraeg yw ymweld â lleoliadau pwysig, yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol, yn yr ardal hon. Eleni am y tro cyntaf cafwyd cyfle i fynd i ganolfan newydd Kate Robers yn Nghae'r Gors, ble gwelwyd ffrwyth y llafur aruthrol er sicrhau fod y ganolfan yn realiti. Wedyn aethpwyd ati i gerdded y Lôn Wen cyn mynd ymlaen at ardaloedd R. Williams Parry a T. H. Parry-Williams. Yn ystod y prynhawn cafwyd pleser yn mynd ar helfa drysor o amgylch Glynllifon.

## Prif Ddisgyblion



Llongyfarchiadau i bedwar disgybl o Flwyddyn 13 ar gael eu hethol yn brif ddisgyblion ar yr ysgol ar gyfer eleni. Y prif fachgen yw Dewi Foulkes o Fethel a'r brif eneth yw Ffion Williams o Lanrug. Eu dirprwyon yw Dewi Meirion Jones o Bontrug a Lois Eifion Jones o Bnisarwaen.



*Daniel a'r Rhododendron.*

## Yr Wythnos Drawsgwricwlaidd

Dyma un o uchafbwyntiau calendr yr ysgol yma ym Mrynrefail ers sawl blwyddyn bellach, a doedd eleni ddim yn eithriad. Cafwyd toreth o weithgareddau amrywiol a difyr. Gobeithio y gallwn rannu blas ohonynt gyda chi:

* * *

**Gweithgaredd Gwyddoniaeth Bl 9**

Dygwyd Rhododendron Ponticum i Brydain 200 mlynedd yn ôl i addurno gerddi mawr crand y boneddigion.

Mae'r planhigyn yn tyfu yn gyflym iawn yn hinsawdd a phridd asidig ac felly wedi ymledu trwy ardaloedd gwledig gogledd Cymru.

Os na wneir ymdrech i reoli'r Rhododendron bydd yn debygol o ledaenu yn gyflymach nag y mae ar hyn o bryd.

Bydd hyn, nid yn unig yn peri lleihad mewn amrywiaeth ac yn nifer y planhigion a bywyd gwyllt, ond bydd hefyd yn effeithio ar dir sydd ei angen at amaeth a choedwigaeth.

## Mabolgampau'r Haf




*Angharad a Zoot – Capteiniaid Chwaraeon Elidir.*

Yn ystod bwrlwm tymor yr haf cynhaliwyd Mabolgampau'r ysgol. Yn ffodus, llwyddwyd i sicrhau diwrnod sych a chymharol braf – peth prin eleni! – a chafwyd diwrnod gwerth chweil. Ar derfyn dydd y tîm a ddaeth i'r brig oedd ELIDIR! Da iawn chi ac i bob un a gymerodd ran mewn rhyw ffordd.

## Y Cwrs Antur

Diwrnod poblogaidd ymysg nifer o ddisgyblion yr ysgol oedd y cwrs antur a drefnwydd gan y fyddin. Mwynhawyd gwylio ffrindiau yn gwneud eu gorau i drechu'r cwrs antur anferth.

**Eisteddfod Ysgol Brynrefail**
Neuadd yr Ysgol
Nos Iau,
Hydref 25ain
am 6.30 yr hwyr
Dewch yn llu!!!

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

# Llythyrau Ellis Williams



Yn ystod y Nadolig 2006, mae'n debyg i lawer o ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* weld y rhaglen *Llythyrau Ellis Williams* ar y teledu. Roedd Ellis Williams o fferm y Gors, Penisarwaun, yn frawd i fy Nain a hi a gadwodd y llythyrau oddi wrtho tra roedd yn crwydro ym Mhatagonia ac Awstralia. Trwy ysgrifennu crynodeb o hanes Ellis mewn erthygl yn yr *Eco* rai blynyddoedd yn ôl y daeth y stori i sylw Alun 'Sbardun' Huws.

Roedd fy nghefnder, Tegid Jones, gynt o Frynrefail, yn beiriannydd gyda'r BBC ac yn ffrind i Alun. Tra'n cydweithio yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, fe ddangosodd Tegid yr erthygl i Alun a chytunwyd bod defnydd ffilm dda yn helynt yr hen Ellis.

Yn drist iawn, bu farw Tegid rhyw flwyddyn yn ddiweddarach ond mi gofiodd Alun am y cytundeb a chysylltodd â mi gyda'r syniad o gynhyrchu ffilm, sydd wedi troi allan yn ardderchog.

Fel y cofiwch, mae nifer o dalentau'r ardal yn cymryd rhan yn y ffilm, Bryn Fôn a Dyfrig Evans yn actio, ac Ynyr Roberts (sydd yn byw yn agos iawn i fferm y Gors, Penisarwaun), hefyd Gai Toms, Gwilym Morus, Gwyneth Glyn, Heather Jones a Sioned Mair yn canu caneuon o waith Sbardun ac Ems (Alun Huws ac Emyr Huws Jones). Roedd yr adnoddau cynhyrchu dan ofal Siân Teifi a Huw Orwig o gwmni Sianco yng Nghaernarfon.

Fel y gŵyr llawer sydd yn olrhain eu hachau teuluol, mae llawer o bethau annisgwyl yn dod i'r fei yn y broses. Ar y we cafodd ein merch, Lynne, hyd i lyfr oedd newydd ei gyhoeddi yn Awstralia, *Welsh Patagonians – The Australian Connection*, gan Michele Langfield a Peta Roberts. Cawsom gopi o'r llyfr, sydd yn rhoi hanes rhyw hanner cant o bobl o'r Wladfa a symudodd i Awstralia yn 1912/13, i ardal Leeton yn New South Wales. Roedd y llywodraeth yno wedi comisiynnu y 'Murrumidgee River Irrigation Scheme', ac yn awyddus i gael ffermwyr oedd â phrofiad o amaethu trwy ddyfrio'r tir. Anfonwyd cynrychiolwyr i Batagonia i gynnig ffermydd i'r Cymry oedd wedi datblygu y ffordd hon o ffermio yn y Wladfa. Aflwyddiannus fu'r ymgyrch i dyfu Alffalffa – nid oedd y tir yn addas oherwydd gormod o glai – a gwasgarwyd y Cymry. Erbyn heddiw mae'r ardal yma yn cynhyrchu 80% o reis Awstralia! Byddai hanes y Wladfa ac Awstralia tipyn yn wahanol pe buasai'r ffermwyr cynnar hyn yn ymwybodol o'r datblygiad hwn.

Wedi cael gafael ar y llyfr, dyma droi i'r mynegai a gweld 13 cyfeiriad at Ellis Williams. Ei hanes yn dod i Awstralia a'r cyfeillion a ddaeth gydag ef, a llun o gist a adawodd gyda'i gyfaill, David Lloyd Jones, pan ymunodd Ellis â'r fyddin a mynd i'r rhyfel yn Ffrainc, lle cafodd ei ladd yn ardal y Somme yn Ebrill 1918.

Yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2006 mi euthum i ac Owena, fy ngwraig, ynghyd â Lynne a Matthew ein hŵyr, gyda Theithiau Elvey MacDonald i ymweld â'r Wladfa. Taith anhygoel a chyfle i weld rhai o'r llefydd y bu Ellis yn gweithio ynddynt fel Gaucho ac yn crwydro.

Gwelsom Gerlan, Dolafon, cartref John Lloyd Jones (brodor o Benmachno a thad Caradog a David, a symudodd i Awstralia gydag Ellis). Dyma'r cyfeiriad a ddefnyddiai Ellis yn ei lythyrau. Gwelsom ychydig o waith ffilmio'r hanes, ond yn arbennig cawsom fwynhau croeso pobl y Wladfa ac edmygu purdeb eu Cymraeg. Buom yn ymweld â'r Eisteddfod yn Nhrelew, y Gaiman, Porth Madryn, Esquel a Threvelin, a theithio ar draws y paith gan ddychmygu bywyd Ellis yn ceisio magu defaid a cheffylau ar y diffeithwch sych.

Ar ddiwedd pythefnos arbennig, fe aeth gweddill y teulu adref ond, gyda thocyn teithio rownd y byd yn fy llaw, euthum i ymlaen i Awstralia.

Cefais lety dros nos gyda'r awdures, Dr Michele Langfield, ym Melbourne, yna gyrru 400 milltir trwy Victoria a New South Wales i Leeton, ac ymuno â'r criw ffilmio am rhyw bedwar diwrnod. Gwelais beth o ffilmio stori Ellis a'r sied y mae'n sôn amdani yn ei lythyr, lle roedd yn aros wrth geisio clirio'r tir ar ei fferm. Fe adeiladwyd y sied yma ar gyfer y ffilm o hen goed ac fe'i symudwyd wedyn i amgueddfa tebyg i Sain Ffagan, fel esiampl o'r llefydd yr oedd y mewnfudwyr cynnar yn byw ynddynt.

Mae Leeton heddiw yn ardal lewyrchus ac yn dref fach hardd iawn. Maent yn dyfrhau y caeau â chwe modfedd o ddŵr ac yn gwasgaru had y reis trwy ddefnyddio awyren arbennig. Mae yno ffatri fawr yn cynhyrchu pob math o ddefnydd bwyd o'r reis.

Buom yn gweld yr union le yr oedd fferm Ellis a'i gyfeillion, Caradog a David Lloyd Jones. Lladdwyd Caradog hefyd yn y Rhyfel Mawr ac mae cofgolofn yng nghanol Leeton ac enw Ellis a Caradog arni, ynghyd â rhyw chwe deg o fechgyn lleol.

Wyres i David Lloyd Jones yw Dawn Smith, a thrwy gysylltiad Michele Langfield, cefais wybod bod y gist, yr oedd Ellis wedi ei gadael ar ôl pan aeth i'r rhyfel, erbyn hyn ym meddiant Dawn ym Melbourne. Trwy gysylltiad e-bost cefais wahoddiad i'w gweld a chynnig ei chael os gallwn ddod â hi yn ôl i Gymru. Wedi eu cadw'n ddiogel ers 90 o flynyddoedd roedd llawer o gardiau post, lluniau a dyddiadur 1913 o daith David Lloyd Jones a'i wraig a thair o ferched bychain o Ddolafon i Borth Madryn, wedyn hwylio i Buenos Aires ac ymlaen i Teneriffe, a llong wedyn i Sydney, Awstralia.

Wrth gwrs, yn Gymraeg yr oedd popeth wedi ei ysgrifennu a thra'n aros gyda Dawn a'i gŵr am ddeuddydd, bûm yn cyfieithu'r cardiau post i'r Saesneg. Un o'r lluniau yn y gist oedd o fy nain yn sefyll y tu allan i'w chartref yn Bod Ifor, Rhythallt Terrace, Llanrug. Deuthum â'r llun a'r cardiau o eiddo Ellis adref efo mi.

Trwy ychydig o berswad ar gwmni awyr Quantas, gan ddweud fod Ellis druan wedi gadael y gist ar ôl yn 1916 pan ymunodd â'r fyddin ond wedi methu dychwelyd, a bod aelod o'r teulu am fynd â hi yn ôl i Gymru, mi gludwyd y gist gyda pharch ar yr awyren i Heathrow, Llundain, ac wedyn i'n tŷ ni yn Moelfre, lle y mae'n cael lle anrhydeddus.

Mae Dr Michele Langfield wedi ei phenodi yn Athro ym Mhrifysgol Deakin, Melbourne, ond mae ar hyn o bryd yn gwneud ymchwil i *Child Migration to Australia* ym Mhrifysgol Lerpwl ac wedi bod yn darlithio yng Nghaerdydd a Bryste yn ddiweddar. Daeth hi a'i gŵr i aros gyda ni yn ddiweddar a dyma lun o'r ddau ohonom gyda'r gist. Mae llythrennau enw Ellis (EEW) i'w gweld ar yr ochr.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i *Eco'r Wyddfa* am gyhoeddi'r stori ac am bopeth sydd wedi dilyn o hynny – yr ymweliad â'r Wladfa ac Awstralia yn dilyn ôl traed Ellis gymaint o flynyddoedd yn ddiweddarach, y mwynhad o weld y ffilm a gwrando ar y caneuon hyfryd a gwireddu fy mreuddwyd pan ysgrifennais y crynodeb ar gyfer y papur.

Eifion Hughes
27 Nant Bychan
Moelfre, Ynys Môn


**Fframia** Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

**Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:**
**WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW**
**KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

# Noson Chwaraeon Ysgol Gynradd Llanrug





Lluniau cychwyn 'ras' y Cylch meithrin (y rhai lleiaf) a ras y dosbarth meithrin. Neb wedi ennill na cholli gan fod pob un wedi mwynhau eu trip o gwmpas yr iard, sawl un law yn llaw.

# A wyddoch chi…?

Cyn ymledu i'r mynydd oll, cyfeirio'n wreiddiol at y garnedd o gerrig ar y copa a wnai'r enw Yr Wyddfa; gall gwyddfa hefyd olygu 'uchelfa' neu 'claddfa', a thyfodd traddodiad mai yma y claddwyd Rhita Gawr a laddwyd, yn ôl Sieffre o Fynwy, gan y Brenin Arthur.

Mae *Gwyddoniadur Cymru* yr Academi Gymreig yn waith diffiniol a chynhwysfawr sydd, yn ôl rhai, y llyfr pwysicaf yn y Gymraeg ers y Beibl Cymraeg yn 1588. Heb os, hwn fydd un o'r llyfrau mwyaf gwerthfawr i'w gyhoeddi yn hanes Cymru. Mae'r cyhoeddiad hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Gwasg Prifysgol Cymru a'r Academi, ac fe'i hariennir yn rhannol gan Gyngor y Celfyddydau a'r Loteri Genedlaethol. Mae tîm ymchwil y llyfr yn cynnwys pedwar o academyddion amlycaf Cymru: Dr John Davies, Menna Baines, Nigel Jenkins a Peredur I. Lynch.

Dywedodd Ashley Drake, Cyfarwyddwr Gwasg Prifysgol Cymru,

'Mae wedi cymryd degawd i dîm golygyddol nodedig a channoedd o gyfranwyr grynhoi'r archwiliad manwl hwn. Heb os, mae wedi bod yn ddatguddiad ac yn ddathliad o bopeth Cymraeg. Mae'n lyfr llawn ffeithiau a ffigyrau am lefydd a phobl, cyraeddiadau a gwobrau, treialon a thrallodau.'


Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r cyhoeddiad ar werth am bris o £60 o fis Tachwedd ymlaen. Cynigir gostyngiad yn y pris i £50 gyda phostio am ddim o fewn y DU, i'r sawl sydd yn archebu o flaen llawn drwy'r wefan: www.gwyddoniadurcymru.com neu drwy ffonio llinell Archebu Gwyddoniadur Gwasg Prifysgol Cymru ar 029 2055 7451.


Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985






£10 Bant!

Archebwch cyn y dyddiad cyhoeddi!
www.gwyddoniadurcymru.com

Also available in English: The Welsh Academy Encyclopaedia of Wales. For details visit www.encyclopaediaofwales.com

Gwasg Prifysgol Cymru, 10 Rhodfa Columbus, Maes Brigantîn, Caerdydd, CF10 4UP
Ffôn: 02920 557451 Ffacs: 02920 496108

£50 gyda p+p am ddim. Pris Adwerth Argymelledig £60 – Arbed £10!

Ar gael o'r 8fed o Dachwedd 2007

Gwyddoniadur yr Academi Gymreig

yw'r cyfeirlyfr mwyaf cynhwysfawr i'w gyhoeddi yng Nghymru erioed. Rhwng cloriau'r gyfrol odidog hon ceir erthyglau am yr holl bobl, lleoedd a digwyddiadau sydd wedi cyfrannu at greu cyfoeth diwylliannol, hanesyddol a daearyddol Cymru.

Pwy? Cymry enwog. Cymry da. Cymry diarhebol o ddrwg. Yr arwyr a'r arwresau na chawsant eu haeddiant, boed yn fodau hanesyddol neu'n ddim ond ffrwyth dychymyg. Maen nhw i gyd yma.

Ble? O unigeddau urddasol i drefi diwydiannol byrlymus, caiff pob treflan yng Nghymru, boed fach neu fawr, ei chrybwyll yn y llyfr hwn.


Beth? Gwleidyddiaeth, hinsawdd, dawns, diwydiant, celfyddyd, chwaraeon, cerddoriaeth, byd natur, theatr, cyfryngau, iaith, economi – dim ond rhai o'r pynciau a geir rhwng cloriau'r llyfr anhygoel hwn, sy'n llawn ffeithiau syfrdanol ac annisgwyl.

Llyfr mawr cyntaf ac olaf Cymru, sy'n anhepgor i bob cartref!
*Prif Weithredwr yr Academi, Peter Finch*





www.gwyddoniadurcymru.com



Arthur a Cilydd.



Cai, Bedwyr a Culhwch.



Olwen ac Osla.



Temtio'r Twrch.

## Sôn am Sioe!!!

Diwedd tymor yr haf llwyfannwyd ein sioe gerdd wedi hir ymaros – 'Crib Siswrn a Rasel', sef fersiwn gyfoes a 'gwahanol' o chwedl Culhwch ac Olwen. Cafwyd tri pherfformiad gwirioneddol gofiadwy a llongyferchir pawb fu'n rhan o lwyddiant y sioe mewn unrhyw ffordd. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n llosgi copïau o DVD o'r sioe. Byddant ar werth am £5 maes o law – mynnwch eich copi rŵan trwy gysylltu â'r ysgol ar fyrder!!!


**Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.**



Golchi a ll'nau Ceir

**Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod**
**Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo**
**Loteri, Papurau Newydd**
**Off Licence, Bake'n Bite**
**Brechdanau a Diodydd Poeth**

Costcutter

01286 871521

# AROS PRYD
## hefo'r 'un garw am ei fol'




**Caffi Menter Fachwen**, Cwm y glo.

Sôn am groeso! A lle diddan, clyd a glân tu hwnt.

Un o'm hoff deithiau cerdded, welwch chi, yw o bentref hardd Llanberis am y Fachwen a'r topiau, hyd nes cyrraedd rhan uchaf pentref Cwm y Glo. Yna, troedio'r llwybr cyhoeddus i'r gwaelodion. Erbyn hyn, mae fy stumog yn gweiddi am rywbeth blasus i'w fwyta a'm tafod yn sych grimp, tra'n crefu'n ddibaid am fymryn o eli'r galon, sef paned fach boeth o de!

Bob haf, rhaid i mi gyfaddef, mi fyddaf yn galw heibio i Gaffi Menter Fachwen, Cwm y Glo. Mi ddylswn fynd yno'n amlach, a dweud y gwir!

Deallaf bod y caffi'n un tra phoblogaidd ymhlith y pentrefwyr, a phobl o'r tu allan hefyd, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgolion. Y pnawn hwnnw ceid mam hefo'i phlentyn yn eistedd yng nghynhesrwydd yr haul oddi allan i'r caffi, yn mwynhau pryd ysgafn, a hynny o dan un o'r ambarelau a osodwyd hefo'r cadeiriau tu allan i'r caffi croesawgar.

Eisteddais innau yn yr ystafell fwyta a chael lle da! Am £1.90 (bargen yn wir!) cefais glamp o deisen hufen hefo digonedd o fefus llawn ffresni ar ei thop, digonedd o lefrith, cwpan a soser a thebot nobl, wedi ei lenwi hyd yr ymylon hefo te! Ew! ar ôl bustachu dyfod yno roedd y te yn dda, a'r union beth i dorri fy syched! A'r deisen hufen a'r mefus? Tra rhagorol, wir i chi! Blas hyfryd, bendigedig arni, a stwff cartra go iawn.

Mi fyddai'r Musus 'cw wedi ei rhoi hyd adref imi petae hi'n gwybod imi sglaffio mwy nag un darn o'r deisen gartref flasfawr. A finna yn ceisio bod fel brwynen o denau! Ond mae'n werth blasu am yr eilwaith ambell waith, yn enwedig os ydyw'r bwyd gerbron yn wirioneddol dda. Bendigedig wir, ac o gymorth imi losgi caloriau tra'n cerdded am adref!

Sylwais hefyd tra yno bod Ann a'i staff yn glên tu hwnt a'u bod, tra'n gwenu ar gwsmeriaid a'u cynorthwyo, yn canfod amser er eu bod yn hynod o brysur, i sgwrsio hefo pawb a alwai heibio. Canfyddais fod yma gyfle i ymlacio heb neb yn pwyso arnoch i frysio, ac ar ben hyn i gyd ceid yno amrywiaeth o ran y prydau a ddarperir, a'r rhain i gyd am brisiau rhesymol.

Dylai Cwm y Glo, ynghyd â thalgylch *Eco'r Wyddfa* a Gwynedd drwyddi draw, a Chymru hefyd, ymhyfrydu bod y caffi hwn ar gael. Caffi'r croeso cynnes, y bwyd cartra a chaffi y byddaf yn sicr o alw yno eto tra'n lindiloncian ar hyd y fro.

A fuoch chi yno? Naddo? Beth amdani'r wsnos sydd ar ddyfod?

## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YR YSGOL GYNRADD
Pedwar o blant bach sydd wedi cychwyn yn y Meithrin eleni ac maent eisioes wedi cartrefu yn dda. Croeso mawr i Cara, Anya, Dion ac Ethan atom.

Daeth Ian o Techniquest, Llanberis, draw i gynnal gweithdy gwyddoniaeth ar adeiladu pontydd efo CA2. Roedd yn sesiwn ddiddorol ac fe gafodd Blwyddyn 5 a 6 eu ffilmio yn mynd ati i adeiladu pontydd amrywiol.

Mae sesiynau Campau'r Ddraig yn cychwyn ar Hydref 3ydd, a chyfarfodydd yr Urdd ar Hydref 10fed.

Gan ein bod wedi gohirio ein Ffair Haf oherwydd y tywydd glawog, mae gennym Ffair Hwyl yr Hydref am 4 o'r gloch ar Hydref 4ydd. Mae croeso i bawb alw heibio.

Mae croeso hefyd i chi ymuno gyda Chlwb 100 yr Ysgol er mwyn bod â siawns o ennill gwobrau hael pob mis. Danfonwch eich manylion I'r Ysgol gyda siec o £12 os oes gennych ddiddordeb.

UNDEB Y MAMAU. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Robert Townsend yn Eglwys Sant Gabriel nos Lun, 3 Medi i ddechrau ein cyfarfodydd am y tymor newydd.

Cafwyd cyfarfod a lluniaeth yn yr ysgol gymuned. Trafodwyd materion perthnasol gan arweinydd y gangen, Mrs Dorothy Jones. a derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Miss Meira Williams. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Mehefin a diolchwyd i Margaret a John Latham am drefnu'r Te Mefus ym mis Gorffennaf.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Margaret Latham a Mrs Menna Roberts, hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Marjorie Roberts. Diolchwyd i'r gwesteion gan Marjorie.

Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymeimlad dwysaf â Mrs Mai Williams, Elidir View, yn ei phrofedigaeth o golli brawd yng nghyfraith yn ddiweddar.

MARWOLAETH. Yn dawel yng Nghartref Plas Maesincla, Caernarfon, dydd Llun, 3 Medi, bu farw Mr John Samuel Evans yn 91 mlwydd oed. Brodor o Flaenau Ffestiniog oedd Mr Evans ac, wedi treulio rhai blynyddoedd yn trigo ym mhentref Nant Gwrtheyrn, daeth y teulu i ofalu am y Swyddfa Bost yng Nghwm-y-glo, yn Manchester House y dyddiau hynny. Bu'n aelod ffyddlon yng nghapel y Tabernacl.

Er iddo ymgartrefu yn Nhre Gof, Caernarfon, deuai i fyny pob dydd i Garej Cwm gan gadw cysylltiad â phawb yn y pentref. Ymgartrefodd y blynyddoedd diwethaf yng Nghartref Plas Maesincla, lle cafodd ofal tyner a charedig. Bu ei angladd yng Nghapel Gorffwys, Caernarfon, a rhoddwyd i ef i orffwys ym mynwent Bethesda, Blaenau Ffestiniog. Gwasanaethpwyd yn yr angladd gan y Barch Gwenda Richards. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu a ffrindiau yn eu profedigaeth.



*Cara, Anya, Dion ac Ethan, sydd yn y dosbarth Meithrin.*

# RAS ELIDIR A PHEDOL PERIS

Daeth bron i hanner cant o redwyr i Nant Peris ar y Sadwrn cyntaf ym Medi i herio'r glaw a'r niwl wrth ddringo i gopa'r Elidir fawr, ac yna hyrddio'n ôl drwy Gwm Dudodyn.

Simon Bailey, cyn-bencampwr Prydain, oedd yn fuddugol mewn amser o 54 munud ac 18 eiliad, ond y rhedwr lleol cyntaf oedd Iwan Morton o Gwm y Glo, gyda Gwynfor Owen o Lanberis yn fuddugol yn yr adran i ddynion dros 50 oed. Ali Thomas o Gwm y Glo oedd y ferch gyntaf dros 40 oed, a Maggie Oliver o Ddinorwig y ferch gyntaf dros 50 oed.

Ar y Sadwrn dilynol roedd un o glasuron rhedeg mynydd Prydain yn cael ei chynnal, gyda saith deg a phump o redwyr yn herio'r cwrs o Lanberis dros yr Elidir a'r Garn i'r Glyder, cyn disgyn i ben Gorffwysfa, ac yna dringo eto i'r Lliwedd, Yr Wyddfa a Moel Cynghorion a chroesi cwm Brwynog yn ôl i'r diwedd. Wedi ras agos iawn, daeth Rob Greenwood o Lanberis yn ail. Mae'n syndod meddwl fod y ddau redwr cyntaf wedi cwblhau'r cwrs mewn llai na theirawr a hanner!

Ar yr ail Sadwrn ym mis Hydref bydd rhai o aelodau lleol Rhedwyr Eryri yn cynrychioli'r clwb ym mhencampwriaeth rasus cyfnewid Prydain ar fynydd-dir y Forest of Bowland yn swydd Gaerhirfryn. Mae Rhedwyr Eryri wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y rasus hyn yn y gorffennol, gan ennill medalau aur ac arian. Hei lwc na ddaw medalau eraill i Eryri y tro hwn.

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740



Ar ddydd Sadwrn, 18 Awst, yng Nghapel Coch, priodwyd Llinos Hughes ac Aled Vaughan Evans, Llanfairpwll gan y Parchg John Pritchard. Maent wedi ymgartrefu yn Llanfairpwll, Ynys Môn, erbyn hyn. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

DIOLCH. Dymuna Llinos ac Aled ddiolch o galon i'w teuluoedd, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas. Diolch yn arbennig i'r Parchg John Pritchard am ei wasanaeth yn Capel Coch.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan a Bethan, Twrog Villa, Carmel, ar enedigaeth eu mab bach, Daniel; ŵyr cyntaf i Christine ac Alan Roberts, Tan Dinas.

YSGOL DOLBADARN

Ar ddechrau blwyddyn ysgol arall croesawyd 27 o ddisgyblion newydd i'r Meithrin a braf yw dweud eu bod wedi setlo'n arbennig o dda.

Rydym hefyd wedi croesawu Miss Cheryl Edwards yn athrawes rhan-amser a Miss Ffion Owen i swydd mamolaeth yn yr ysgol.

Dros yr haf fe briododd un o'r athrawesau yn Sorento a dymunwn yn dda i Manon a Deiniol Davies ar ddechrau eu bywyd priodasol; nid yw pawb yn cofio mai Mrs Davies yw hi rŵan!!

Mae nifer o fyfyrwyr wedi ymuno â ni yn ddiweddar hefyd, sef Mrs Sharon Ray, sy'n dilyn y cwrs dysgu i raddedigion ac Elin Morris a Carolyn Evans, sy'n hyfforddi i fod yn gymorthyddion dosbarth; hyderwn y byddant yn mwynhau eu cyfnod efo ni.

Mae'r Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion wedi trefnu Bingo yng Ngwesty'r Dolbadarn ar gyfer nos Wener, 28 Medi am 7.30 o'r gloch ac edrychwn ymlaen am gefnogaeth rhieni a chyfeillion fel ei gilydd. Ar Nos Fawrth 20 Tachwedd mae'r Gymdeithas wedi trefnu Noson Siopa yn yr ysgol, pryd y bydd masnachwyr yn gwerthu nwyddau sy'n addas fel anrhegion Nadolig.

Ar Nos Fercher, 5 Rhagfyr, rydym yn gobeithio y daw Siôn Corn i weld y plant yn y Ffair Nadolig.

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 28 Awst, bu farw Ronald Gwilym Thomas, 25 Dôl Eilian, yn 76 mlwydd oed. Colled fawr i'w deulu a'i ffrindiau. Dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad.

Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ei gymorth ac i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am eu gwasanaeth urddasol. Cyflwynwyd y rhoddion ariannol tuag at gronfa Gofal Lliniarol *(Palliative Care)* Ysbyty Gwynedd.

CAPEL COCH. Mae'r Ysgol Sul wedi ailddechrau ers dechrau mis Medi wedi gwyliau'r haf. Roedd yn braf cael croesawu'r plant yn eu hôl a chael cwmni rhai sy'n cychwyn yn yr Ysgol Sul am y tro cyntaf. Mae croeso cynnes i unrhyw blentyn i ddod atom ar fore Sul. Caiff yr Ysgol Sul ei chynnal yn festri Capel Coch am 11.15 o'r gloch bob bore Sul, ag eithrio ambell fore Sul yn ystod gwyliau'r Ysgol. Ffoniwch John neu Falmai Pritchard ar 872390 am ragor o fanylion neu dowch draw i'r festri ar fore Sul.

Byddwn yn dilyn maes llafur newydd sydd wedi ei baratoi gan y Cyngor Ysgolion Sul eleni.'Gofalu ar y Gair' yw teitl y gyfres o lyfrau a fydd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer pob mis, ac yn ystod mis Medi mae'r gwaith wedi ei seilio ar hanes Porthi'r Pum Mil.

# Castell Padarn

Fe ŵyr pawb fod yna gastell yn Llanberis, ond faint tybed a fedr adrodd ychydig o'i hanes.

Mae'n sefyll ar y graig sydd yn gwarchod Cwm Safn y Cŵn, sef Pentrecastell heddiw, ac hefyd yn gwarchod Bwlch Gorffwysfa, neu Fwlch Llanberis. Gellid sefyll ar ben Carreg y Frân ac anfon negesau neu rybudd i Gastell Padarn neu i Gastell Dolwyddelan ac mae'n bosib gweld am filltiroedd i bob cyfeiriad. Ond beth oedd hanes Castell Padarn?

Nid mater hawdd yw penderfynu pa bryd, nac ychwaith pwy â'i adeiladodd. Er mai dim ond y tŵr sydd ar ôl, rwyf yn sicr nad hwn oedd y cyfan o'r castell. Mesura'r tŵr presennol wyth troedfedd ar hugain o led o fewn y muriau, a bron iawn i ddeg a phedwar ugain troedfedd o uchder. Mae'n rhaid cydnabod fod Castell Padarn yn un o amddiffynfeydd caerog hynaf Cymru.

Fel Caer Peris y câi ei adnabod am lawer o flynyddoedd ond newidiwyd yr enw i Gastell Padarn o anrhydedd i Sant Padarn.

Yr hanes yw fod Caradog, Brenin Cernyw, wedi dod i Gymru gyda byddin gref i gynorthwyo Maelgwn Gwynedd i orchfygu'r Saeson, ac am hynny fe gafodd Gastell Padarn yn anrheg. Mae hyn yn rhoi rhyw syniad i ni o oed y castell. Fe fu hefyd yn garchar gan Dafydd ap Gruffydd i'w frawd, Owain Goch, am ddeuddeng mlynedd.

Yn ddiweddarach, bu lleidr o'r enw Ap Rhys yn trigo ynddo. Roedd hwn yn mynd i ysbeilio i ardaloedd eraill o Wynedd, Môn, a chyn belled â de Cymru. Hefyd, yn aml iawn, âi i ddwyn a difrodi i Ffrainc a Sbaen. Roedd ei filwyr yn ymladdwyr medrus dros ben ac yn grefftwyr gyda'u harfau gan drechu milwyr y brenin yn ddidrafferth bron bob amser. Ond, daliwyd Rhys a'i fintai ym Môn a'i garcharu ym Miwmares. Ymhen y mis roedd Ap Rhys wedi ffoi gan adael ei ddilynwyr i gael eu crogi. Archwiliwyd y castell yn fanwl gan wŷr y brenin William a darganfuwyd ynddo drysorau gwerthfawr o aur ac arian. Anfonwyd y rhan helaethaf o'r trysor i'r brenin a rhannwyd y gweddill rhwng y gwŷr hynny a honnai mai hwy oedd perchnogion yr ysbail. Dyma'r amser hefyd y daeth gwybodaeth fod Ap Rhys yn byw yn fras iawn ar y cyfandir, gyda chyfoeth mawr. Mae'n debyg fod gan yr hen Ap Rhys fwy nac un trysor!

Mae hanes amdano hefyd yn anfon cenad i'r Llys i hawlio'i drysor ei hun gan y brenin, ac yn llwyddo i'w feddiannu dan enw arall.

Chwalwyd yr hen gastell i'r cyflwr y mae heddiw dan orchymyn gan y Frenhines Ann yn 1708. Mae'n un o bryf atyniadau Dyffryn Peris heddiw, ond ni chlywir fawr o Gymraeg yn dod o'r hen dŵr y dyddiau hyn.

Cofiwch hefyd, yr oedd Castell Padarn yn hen iawn cyn i Gastell Caernarfon gychwyn cael ei adeiladu.

R. ELWYN GRIFFITH


Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
SKODA BMW PEUGEOT FIAT IMPORTS GERMAN SWEDISH
Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...
Shell HELIX
MOT
Ceir Benthyg AM DDIM
Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk
AVW Advanced Vehicle Workshop
Car Service
BOSCH Service
VOLVO MERCEDES SAAB

Blodau Racca
(ALWYN AND SARAH JONES)
Ffôn 870605
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 118 247
- Planhigion Gardd a Basgedi Crog

RHODD O'R GALON YW BLODAU

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
gwefan: www.ydyncig.co.uk

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

**Mudiadau gwirfoddol**
Derbynnir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth fudiadau lleol yn ystod mis Hydref.

**Dadorchuddio cofeb i'r Athro a'r Dramodydd, Huw Lloyd Edwards, ym Mhenisa'rwaun ar 25ain Awst**
Dymuna'r Cyngor ddiolch i'r canlynnol: Ei deulu am eu cyfraniad ariannol, Mrs Ann Evans am yr adroddiad cryno yn Eco'r Wyddfa, Keith Ball a Rachel Taylor am eu caniatád caredig i osod y Gofeb ar y Siop Gron, Pwyllgor y Ganolfan am gael defnyddio'r neuadd a'r gegin, Miss Phyllis Ellis am drefnu a gwahodd siaradwyr, Mr Gwilym Williams am lunio a gosod y gofeb ac i Pat Jones am y lluniaeth ardderchog i gloi'r achlysur.

**Cyfarfu'r Cyngor ar y 4ydd o Fedi 2007**
**Gweddi.** Darllenwyd y weddi safonol gan y Clerc.
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 31ain o Orfennaf fel rhai cywir.

**Materion o'r cofnodion**
Un Llais Cymru. Gwirfoddolodd Len Jones a Huw P. Hughes i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Rhanbarth Arfon.
Gangiau cymunedol. Darllenwyd ateb Gwynedd a phenderfynwyd gofyn am eu rhaglen waith.
Yr Heddlu. Derbyniwyd ateb yr Uwch-Arolygydd Gareth Wynne, ei fod wedi hysbysu'r Rhingyll Plismona yn y Gymuned, Ian Williams, o'r camymddwyn yn yr ardal. Dywedodd hefyd bod PC Gethin Jones ar fin dechrau fel Rheolwr Rhawd dros Bethel a Rhiwlas. Penderfynwyd cyhoeddi eu rhifau ffôn yn *Llais Ogwan* ac *Eco'r Wyddfa*. Ychwanegodd Len Jones bod wyth car heddlu wedi ymddangos yn Neiniolen am 4.00 o'r gloch y bore pan gynnwyd tân ar safle'r Hen Sinema. Y cwestiwn yw a oedd angen wyth i un digwyddiad, a lle maent fel arall? Pe bai'r wyth yn patrolio'n gyson mae'n bosibl na fyddai'r tân wedi ei gynnau a byddai llai o gam ymddwyn.
50 m.y.a. A4244. Cyflwynwyd ateb Gwynedd nad yw'r rhan o ffordd o Beran at Groeslon Tŷ Mawr yn 'cydymffurfio gyda'r canllawiau ar gyfer cyfyngiadau cyflymder o'r fath'. Dywedodd y Cynghorwyr Sir bod Adran Priffyrdd Gwynedd, mewn cyfarfod yn Ysgol Brynrefail, wedi cyhoeddi bod y cyfyngiad i cyrraedd at Groeslon Tŷ Mawr – llythyr iddynt i ofyn beth yw'r gwahaniaeth erbyn hyn.
Diolchodd y Cadeirydd i bawb a weithiodd ar gyfer llwyddiant bore dadorchuddio cofeb Huw Lloyd Edwards.

**Gohebiaethau eraill**
Dywedodd Hefin Williams bod angen sylw ar gofeb rhyfel Tabernacl, Deiniolen – llythyr i Wynedd gan mai hwy sy'n gyfrifol am fynwent Macpelah.
Cyfeiriodd Mrs Pat Larsen at y ceir sy'n parcio ym mynedfa Bryntirion, Penisa'rwaun, ac ym amharu ar drafnidiaeth - llythyr i Dafydd Williams, Gwynedd.
Gwnaeth Gwilym Williams sylw bod twll yn y ffordd ger Plas Eryr, Clwt y Bont – llythyr i'r Adran Priffyrdd.
Cyhoeddwyd 'Fforwm Gymunedol Awdurdod yr Heddlu' ar y 18fed o Hydref (yn Aberdaron!)
Adroddodd y Clerc, ar ran Aled Green, bod bwriad yr Awdurdodau Iechyd yn afresymol yn disgwyl i ogleddwyr deithio mor bell am driniaeth:

- Sganiwr ymenydd i Gaerdydd neu Abertawe.
- Triniaeth esgyrn i Gobowen.
- Triniaeth Calon i Fanceinion.
- Aeth y sganiwr a dalwyd amdano gan weithwyr adeiladu Pwerdy Dinorwig a'r cyfarpar a ariannwyd gan gronfa a drefnwyd gan Dr Jim Davies, i Gaerdydd.

Mae'n amser i'r awdurdodau roi'r gorau i chwarae â iechyd y gogleddwyr. Penderfynwyd danfon llythyr i Alun Ffred AC i bwyso am weithredu ar y gwendid yma.
Cyhoeddwyd y bydd y Ffordd Dosbarth yn Seion ar gau am oddeutu pythefnos o'r 24ain o Fedi

**Cynllunio**
Ceisiadau a dderbyniwyd:
Cadw Lolfa: Gors Bach Inn.
Codi estyniad unllawr: 16, Stad Eryri, Bethel.
Codi lolfa: Brookfeild, Dinorwig.
Estyniad unllawr i'r ochr: Arwel, Penisa'rwaun.
Estyniad unllawr, garej ac estyniad cwrtil: Nant Efa, Llanddeiniolen.
Newid defnydd rhan o gae i estyn y cae pêl-droed presennol, codi adeilad ystafelloedd newid a thanc septic: cae Coed Bolyn, Ffordd Crawia, Bethel.
Dymchwel y modurdy presennol a chodi un newydd yn ei le: Wern Bach, Bethel.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:
Codi estyniad unllawr: 16, Stad Eryri, Bethel.
Estyniad: 2, Stryd Newydd, Deiniolen.
Adeiladu tŷ: cyfagos i Bryn Clegyr, Clwt y Bont.


Cais a dynnwyd yn ôl:
Datblygiad hamdden cynhwysfawr yn cynnwys canolfan sgïo, gwesty, pwll hamdden, ailddylunio tirwedd, maes parcio, ayyb: Chwarel Glyn Rhonwy, Llanberis.

**Llwybrau**
Danfonwyd copi ymlaen llaw i bob aelod o *Cytundeb Diwygiedig rhwng Cyngor Gwynedd a Chynghorau tref a Chymumed i gynorthwyo gyda cynnal a chadw hawliau tramwy Cyhoeddus.* Trafodwyd ei gynnwys gan wneud sylw bod y ddogfen mor hirwyntog â'i thestun. Amlygwyd amheuaeth o'r taliad am dorri gwair a wneir i gynghorau Cymuned. Addawodd y Clerc gymharu'r £16.25 y cilomedr + £220 â'r taliadau a wnaed eisioes.


BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

H. E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444


• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Cefnogwch ein hysbysebwyr

Dylan Griffith
TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys
PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833
Symudol: 07778 127394





HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA





Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul

QUALITY HOTEL
Quality Hotel Llanberis
(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis (01286) 870253

# Cyngor Cymuned Llanrug

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst. Dyma grynodeb o'r cofnodion.

Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin yn gywir a chyflwynodd Goronwy Hughes adroddiad ariannol cyfredol yn y ddau gyfarfod a diolchwyd iddo am ei waith.

**Pwyllgor Cynllunio Arfon** wedi caniatau y ceisiadau canlynol:

- Canolfan i Bysgotwyr yn Crawia Llanrug;
- estyniad dau lawr i Tŷ Crwn Cwm y Glo;
- estyniad llawr cyntaf i 10 Nant y Glyn;
- man yfed cysgodol i Glyn Twrog, Llanrug;
- codi lolfa ar gefn Kuantan, Bryn Moelyn, Llanrug;
- dymchwel Capel Hermon a chodi dau dŷ;
- modurdy a storfa yng Nghil y Bont, Crawia

Nid oedd gan y Cyngor Cymuned wrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

- estyniad ar Tan Llan, Pontrug;
- estyniadau yn Hafod y Coed Ceunant.

Gofynnwyd i'r clerc anfon at yr Ombwdsman i fynegi pryder am y modd y deliwyd â'r cais am Ganolfan Bysgota yn Crawia, Llanrug.

Er bod y cyngor yn fodlon iawn ar yr ymdrech i geisio diogelu plant, roedd pryder am y dull o weithredu'r cynllun i addasu ac ehangu maes parcio Ysgol Brynrefail. Byddai mwy fyth o dir gwyrdd yn cael ei golli a hefyd teimlid y byddai system unffordd allan o'r ysgol yn creu mwy o broblemau yn y Lôn Groes.

Trafodwyd gwelliannau ar gyfer gwariant 2007-08 sydd i gynnwys llwybr Ogwen, heibio Afon Rhos a Glanffynnon, Llanrug. Y clerc i gysylltu gyda'r perchennog i gael cyfarfod safle.

Gorffen y llwybr troed/beicio o amgylch cae Nant y Glyn, Llanrug. Bydd gwelliannau hefyd yn cael eu trafod ar gyfer Cwm y Glo.

Mae hysbysfwrdd newydd wedi ei wneud a'i osod yn y fynwent. Diolchwyd i Mr Huw Williams, Glyn Afon, am gynnig a gwneud y gwaith, a hynny mor safonol. Mae bwriad i gael y giât wedi ei thrin a hefyd i beintio'r sied.

Mae angen torri'r coed a'r gwrych ger Pen y Bont, Pontrhythallt, gan ei bod yn anodd gweld y drafnidiaeth.

Mae'r lori glanhau strydoedd yn parhau i ymweld â Ffordd yr Orsaf cyn y lori sbwriel, ac felly'n methu â glanhau rhannau helaeth o ymylon y ffordd. Awgrymwyd y dylai ddod ar ôl y lori sbwriel neu'r diwrnod canlynol.

Cafwyd cwynion o Dan y Coed a'r Ceunant nad yw'r lori sbwriel yn casglu'r cyfan o'r sbwriel sy'n cael ei roi allan. Y clerc i gysylltu am hyn.

Nid yw'r Post Brenhinol wedi gosod blwch postio yn ôl ar groesffordd y Bryngwyn ers i'r llall gael ei dynnu oddi yno mis Rhagfyr diwethaf. Y clerc i wneud ymholiadau.

Unwaith eto, mae'r holl waith blynyddol o dorri a chlirio'r llwybrau cyhoeddus wedi ei wneud gan Mr Dafydd Lloyd Owen, Crawia. Diolch yn fawr iawn iddo am wneud y gwaith da a hynny mor gydwybodol.

Trafodwyd y sustem ailgylchu. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i swyddog o Gyngor Gwynedd i gyfarfod o'r Cyngor Cymuned i egluro'r cynllun ailgylchu.

Cytunwyd o blaid cefnogi Cynllun EFE (gweithiwr ieuenctid Cristnogol ym mro *Eco'r Wyddfa*) a'r bwriad yw ymrwymo £500 y flwyddyn am y tair blynedd, unwaith y bydd y cynllun yn weithredol.

Mae cryn bryder gan bentrefwyr Cwm y Glo ynglŷn â phroblemau parcio yn y pentref. Er fod y llinellau melyn sy'n gwahardd parcio wedi hwyluso trafnidiaeth drwy'r pentref, maent wedi achosi llai o lefydd parcio. Gan fod mwy o adeiladu wedi ei ganiatáu yn y pentref, mi fydd y broblem hon yn gwaethygu gyda hyn. Y clerc i gysylltu ag Adran y Prif Weithredwr y tro hwn gan fod penderfyniadau yr Adran Drafnidiaeth a'r Adran Gynllunio wedi cael eu gweithredu yn y pentref.

Medi'r 18fed yw dyddiad y cyfarfod nesaf ac fe'i cynhelir yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo, am 7 o'r gloch


CARPEDI GLÂN ERYRI

• PELLTER DDIM YN BROBLEM

• DIM UN DASG YN RHY FACH

CWMNI LLEOL

ffôn 07917116615

ebost: carpediglaneryri@hotmail.com

AMCAN BRIS AM DDIM


# Dyddiadur Evan Jones Tŷ'r Mawn

Rwyf am ddechrau'r mis hwn yn y flwyddyn 1905.

*24 Ionawr:* Claddu John Ellis, Mur Mawr.

*25 Chwefror:* Claddu Robert Ellis, Brithdir.

*20 Ebrill:* Priodi Thomas William Rowlands.

*9 Mehefin:* Priodi Thomas Jeffrey.

*9 Awst:* Priodi Ellen Owen, Pen Graig.

*11 Awst:* Priodi John Morris Jones.

*5 Medi:* Priodi Griffith Jones, Teiliwr.

*7 Medi:* Priodi Laura Wheldon Jones, Ffestiniog.

*24 Medi:* Marw John Evans, Mur Mawr.

*30 Medi:* Marw gwraig William Parry, Bodnant. Brecman.

*2 Hydref:* Marw gwraig William R. Jones. Llwythwr.

*18 Hydref:* Priodi Evan Jones, Victoria Villa.

*5 Tachwedd:* William Jones, Tai Brics, yn brifo yn Pant drwy i bilar ddod i lawr arno, bu farw yn yr Ysbyty.

*23 Tachwedd:* Marw Owen Owens, Pont Rug.

*24 Tachwedd:* Marw Richard Parry, Llainwen.

*24 Tachwedd:* Marw John Evans, Ceunant Street, a hefyd claddu'r tri yr un diwrnod, sef ar 27 Tachwedd.

*13 Rhagfyr:* Priodi William Jack Jones.

*27 Rhagfyr:* Marw Harry Parry, Llainwen, hefyd priodi William O. Williams, Beudy Mawr, hefyd priodi Francis Plemyng, Nant.

Yn awr fe symudwn gan mynedd yn ôl i rŵan, sef Medi a Hydref 1907.

*11 Medi:* Priodi Owen G. Owen, Llainwen.

*18 Medi:* Priodi Jane Williams, Green Bank. Hefyd fe aeth Owen Williams, Bôd y Gof, a Bob Lloyd, Rallt Goch, i ffwrdd i Affrica.

*22 Medi:* Marw David Williams, Tap gynt, ac hefyd bu farw Owen Hughes, Hafod.

Fe gawn yn awr symud at y flwyddyn olaf o'r Rhyfel Mawr, sef 1918.

*12 Ionawr:* Claddu merch Owen Owens, Water Street. Hefyd Robert Roberts, Cae Newydd Bach yn cychwyn o Vestry Room, Capel Coch. Claddu John Thomas, Newbod Eilian, Llanberis.

*17 Ionawr:* Claddu Richard Ellis Jones yn Llanberis, wedi cael ei ladd yn Lerpwl.

*14 Chwefror:* Claddu gwraig William Parry Williams.

*17 Chwefror:* Claddu gwraig Pierce Griffiths, Turner Street.

*18 Chwefror:* Daeth newydd i'r ardal am ferch Harry Rowlands, Snowdon Street, Llanberis, ei bod hi ar goll, wedi boddi. Cafwyd ei chorff yn Llyn Llanberis (Padarn).

*16 Ebrill:* Claddu John Jones, Well Street, a gafodd ei ladd trwy dorri ei goes yn Muriau.

*22 Ebrill:* Claddu Margaret Humphrys, Ceunant Street, gynt.

*7 Mai:* Claddu Thomas Williams, Pen Caenant.

*7 Gorffennaf:* Marw Grace Williams, Pen Caenant.

*3 Awst:* Claddu Thomas Williams, Llainwen.

*17 Awst:* Marw John Williams, Cae Esgob, yn sydyn yn ei wely ar ddydd Sadwrn.

*21 Awst:* Claddu plentyn i Janet Mary Parry, Ceunant Street.

*30 Awst:* Priodi John Roberts, Tŷ'r Ardd, neu Bryn Coch.

*16 Medi:* Marw Henry Williams, Helfa Fawr.

*19 Medi:* Claddu Griffith Williams, Esgeiriau, Llanberis.

*9 Hydref:* Claddu gwraig Ellis Hughes, Water Street.

*27 Hydref:* Marw Catherine Mary, gwraig William Williamson, a'i chladdu ar ddydd Sadwrn.

*30 Hydref:* Claddu Gaynor Roberts, Bryn Coch.

*5 Tachwedd:* Claddu Owen Pritchard, Snowdon Street, Llanberis.

*9 Tachwedd:* Claddu ei fam, ac hefyd claddu William Jones, sef mab William Jones, Tan Graig.

*19 Tachwedd:* Claddu Margaret, sef chwaer Catherine Mary.

*21 Tachwedd:* Claddu gwraig Leavi Roberts yn Bethesda.

*22 Tachwedd:* Marw Griffith Williams, Castle View.

*23 Tachwedd:* Claddu Benjamin, mab Robert Jones, Ceunant Street.

*30 Tachwedd:* Marw Thomas Moses Williams, Eryri House.

R. ELWYN GRIFFITH


Cofiwch ddefnyddio

**SWYDDFA POST BETHEL**

(01248) 670261

**ORIAU AGOR**
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

**A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)**

# CHWILOTA



## GŴYL CADAIR DINORWIG

**GANRIF union yn ôl cynhaliwyd gŵyl ar dir y Llys, Brynrefail, a gafodd gryn sylw o fewn yr ardal a thu hwnt; gŵyl y mae cryn sôn amdani wedi bod ers hynny, ac wedi cael peth sylw yng ngholofnau'r *Eco* hefyd dros y blynyddoedd.**

Yn ôl yr Herald Cymraeg, *'trefnwyd i gynnal y gyntaf eleni ar lawnt hen Lys Tywysogion Dinorwig, yn wyneb haul a llygad goleuni.'* Penderfynwyd o'r cychwyn cyntaf mai gŵyl oedd hon i fod yn hytrach nac eisteddfod – er fod cystadlu ynddi, yn union fel mewn eisteddfod. Byr fu'r amser i drefnu ac i gyfansoddi ar gyfer yr ŵyl, ac mae'n syndod meddwl fod y cyfan wedi digwydd o fewn cwta bum wythnos.

Meddyliwch am drefnu eisteddfod bro'r *Eco* mewn pum wythnos, a chael digon o bobl leol i gystadlu ar y canu, adrodd a chyfansoddi barddoniaeth. Fe ofalwyd, serch hynny, i beidio â gofyn am gynnyrch llenyddol rhy faith! Penodwyd rhai o brif gerddorion a llenorion y cylch i feirniadu ac, yn ôl pob tebyg, roedd hyn yn anogaeth i lu mawr o drigolion yr ardal gystadlu ar y gwahanol destunau.

Am hanner awr wedi dau ar brynhawn Sadwrn cyntaf Hydref y dechreuwyd ar y gweithgareddau, a'r Parch James Salt, Ficer Llandinorwig, oedd yn arwain ac yn llywyddu. Daeth tyrfa fawr o bobl i'r hen lawnt, ac yr oedd llwyfan wedi ei osod allan dan gysgod hen dderwen enfawr a dyfai allan o olion yr hen Lys. Ychydig iawn o eisteddleoedd a baratowyd. Gosodwyd rhai meinciau a chadeiriau, ond yr oedd y mwyafrif o'r gynulleidfa yn eistedd ar y lawnt neu'n sefyll o amgylch. Chwe cheiniog oedd y pris mynediad ar gyfer cael eistedd, a thair ceiniog i'r gweddill, gan nad oedd yn fwriad gan y trefnwyr i wneud unrhyw elw allan o'r digwyddiad.

Cafwyd anerchiad byr gan y llywydd a chyfarchion barddonol gan Deiniolfryn ac Alafon. Roedd Alafon ar y pryd yn weinidog yn yr Ysgoldy a darllenodd ran o'r gân a ganodd Dafydd Ddu Eryri yn ail Eisteddfod Gadair Dinorwig yn 1802, ganrif a mwy ynghynt.

Traddododd Deiniolfryn ei feirniadaeth ef a Tecwyn Parry (gweinidog y Capel Coch, Llanberis) ar y cywydd 'Afon Seiont', a'r buddugol oedd Isaac Lloyd, Llanrug; enw a ddaeth yn adnabyddus iawn mewn blynyddoedd diweddarach fel Glan Rhyddallt, a'i golofn reolaidd yn yr *Herald Cymraeg*.

Yn dilyn, cafwyd beirniadaeth gan Mr Williams a Mr Jones (fel yna'n union y cofnodir eu henwau!) athrawon yn ysgolion Dinorwig a Nant Peris. Y ddau ohonynt yn cloriannu *'pencil sketches'* ar y testun 'Brenhines yr Wyddfa'. Y gorau oedd llun H. O. Edwards, Ebenezer. Tybed pwy oedd hwn, a faint o arlunwaith a wnaeth yn dilyn y llwyddiant hwn?

Maggie Hughes, Fferm Rhiwen, ddaeth yn fuddugol am ganu 'Cân yr Hogyn Diog'. Nid yw'r testun yn golygu dim i mi. Oes unrhyw un o'r darllenwyr â chopi o'r geiriau neu'r gerddoriaeth?

William Williams, Llanberis, (awdur *Hynafiaeth Llanberis* – sef William Williams, Bod y Gof) oedd yn beirniadu'r traethodau. Y testun oedd 'Yr olygfa o ben Craig y Dinas'. Mae'n rhyfeddol meddwl mai gŵr dall a enillodd y wobr gyntaf, sef Thomas Roberts, Shop Gron, Penisarwaen.

Mewn cystadleuaeth adrodd, daeth Gwilym Owen, Dinorwig, yn fuddugol, ond ni ddaeth neb ymlaen i hawlio'i wobr am englyn. Tudur Llwyd oedd y ffugenw.

Yna cafwyd cystadleuaeth nad yw i'w chael mewn unrhyw eisteddfod bellach, sef cyfansoddi tôn angladdol. Roedd pedwar ar ddeg wedi cystadlu, a chafwyd canmoliaeth uchel i'r cyfansoddiadau gan y beirniad, Mr Henry Thomas, Pencraig, Clwt y Bont. Thomas Lewis, High Street, Ebenezer, oedd y buddugol. Beth ddigwyddodd i'r dôn a gyfansoddodd tybed?

Roedd naw wedi cystadlu ar draethawd crefyddol 'Hwy a etifeddant y ddaear', a'r enillydd oedd Mary Jones, Congl y Mynydd, Dinorwig. Glan Alaw, gweinidog Brynrefail oedd yn beirniadu.

Edward Foulkes (ar ei ran ef a Glan Alaw) oedd yn beirniadu cystadleuaeth y goron, sef rhiangerdd i 'Nest Cwm Eilir'. Y gorau o'r naw o gryn dipyn, yn ôl y beirniaid, oedd Caerwyn Roberts, Bangor; ond am ei fod o'r tu allan i gylch yr eisteddfod, rhoddwyd y goron i John Michael Pritchard, Clwt y Bont, *'yntau yn dra deilwng ohoni, ac yn un o feirdd da y dyfodol,'* yn ôl y beirniaid. Coronwyd ef â thorch o ddail bythwyrdd ac â bathodyn y goron ar ei fynwes.

Cafwyd egwyl fer yn dilyn y coroni.

Ailgychwynnwyd y cyfarfod gyda dwy eitem gerddorol: canu'r crwth gan Willie Price, Ebenezer, a chân gan W. R. Williams, Pencerdd Iolen. Roedd pedwar ar ddeg wedi cystadlu ar y telynegion, gyda Edward Foulkes a Cyngar (R. E. Jones, Llanberis) yn beirniadu. Y buddugol oedd T. J. Cynfi o Glwt y Bont, a oedd ar y pryd yn ysgolfeistr ym Mhrenteg.



*Gŵyl Cadair Dinorwig.*

Doedd hi ddim yn syndod, o gysidro mai dim ond pump wythnos o rybudd a gafodd y beirdd, nad oedd neb wedi cystadlu ar yr awdl – 'Noswyl y gweithiwr'. Fyddai unrhyw brifardd yn meiddio sgwennu awdl mewn llai na phum wythnos? Ond roedd hi'n ofid i Alafon a Berw, y beirniaid, nad oedd cystadlu wedi bod. Er hynny, penderfynwyd fod cadeirio i fod! A rhoddwyd y gadair, fel arwydd o werthfawrogiad, i Edward Foulkes. *'Derbyniwyd hyn gyda boddhad a chymeradwyaeth'* y dyrfa, ac fe'i cadeiriwyd mewn hen gadair dderw o waith llaw Marged uch Ifan, a'r flwyddyn 1719 wedi ei gerfio arni, *'yr hon sydd yn awr ym meddiant David Jones, Cae'r gwyddel.'* Hon oedd y gadair a fyddai'n cael ei defnyddio o hyn ymlaen i gadeirio prifeirdd gŵyl Dinorwig, gan roi tlws i'w gadw am byth i'r buddugwyr.


Rhaid holi yma a yw'r adroddiad am yr eisteddfod yn gywir: mae'r dyddiad 1719 yn cael ei nodi, ond os mai Marged a luniodd y gadair, yna merch ifanc iawn oedd hi bryd hynny. Ac i ble yr aeth y gadair honno mewn blynyddoedd diweddarach? Oes rhai o deulu Cae'r gwyddel yn gwybod?

Mae'n amlwg fod y gwobrau wedi eu rhannu i wahanol rannau o'r fro, a bod cystadlu brwd wedi bod er mai ychydig o amser a gafwyd i baratoi.

Mae llawer o enwau wedi eu cofnodi uchod. Beth ddigwyddodd iddynt i gyd, tybed? A fuont yn fuddugol mewn eisteddfodau eraill? A oes rhai o'u disgynyddion yn parhau yn yr ardal, ac a yw y ddawn adrodd / gerddorol / farddonol / arluniol wedi ei throsglwyddo iddynt? Cysylltwch gydag unrhyw wybodaeth.

**Ymweliad Brenhinol**

Ym mis Gorffennaf 1907 cafwyd ymweliad â'r fro gan y Brenin ei hun. Yr achlysur oedd gosod carreg sylfaen Coleg Prifysgol y Gogledd ym Mangor. Yn dilyn y seremoni, aeth yr osgordd frenhinol ar daith drwy Fethesda a Chapel Curig, cyn dringo'n ôl dros Fwlch Llanberis, trwy bentref Llanberis ac ymlaen i Gaernarfon. Roedd yr ymweliad yn diweddu yng Nghaergybi, gyda chyngerdd yno dan ofal Côr y Moelwyn. Bu paratoadau prysur yn yr ardal i ddathlu'r ymweliad, ac yr oedd pentref Llanberis wedi gwneud sbloets go iawn o'r trimins. Mae'r cerdyn post yn dangos y gwaith anhygoel o godi bwa addurniedig dros ran o stryd fawr y pentref. Diolch i Alan Roberts, Llanberis am fenthyg y llun.



*Llanberis wedi ei addurno ar gyfer yr ymweliad brenhinol.*

Tybed a oedd trefnu gŵyl ddiwylliannol ym Mrynrefail o fewn cwta ddeufis yn rhyw fath o adwaith i'r dathlu brenhinol a fu yn Llanberis?

Gyda llaw, dathliad arall a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn honno oedd canmlwyddiant Garibaldi – y dyn, nid y fisgedan! Ond stori arall yw honno.

A dyna ddigon am y mis hwn. Cofiwch anfon urhyw wybodaeth neu ymholiad am hanes lleol y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

PRIODAS AUR. Llongyfarchiadau calonog i Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian, ar ddathlu eu Priodas Aur ar 7 Medi. Yr ydym fel ardal yn dymuno pob bendith ac iechyd i'r ddau i'r blynyddoedd a ddel.

CROESO I'R ARDAL. Yr ydym yn estyn croeso cynnes iawn i Ffion a Bethan i 1 Bro Elidir. Braf iawn yw gweld dwy Gymraeg yn symud i'r ardal. Mae Mr Alice Thomas a oedd yn byo yno gynt yn nain i'r ddwy. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma yn yr ardal hefo ni.

DIOLCH. Dymuna Dilys a Derek Williams, Bron Eilian, ddiolch yn fawr am y dymuniadau da a'r rhoddion hael a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur ar 7 Medi. Diolch yn fawr i'r teulu, cymdogion a ffrindiau a mawr ddiolch i'r genod, Shirley a Delwen.

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol mis Medi oedd: £40: (31) Bryn Griffiths, Delfryn; £25: (113) Dennis Ratcliffe, Tyddyn Cae; £15: (63) Einir Roberts, 3 Erw Wen; £5: (06) Viv Morgan, Tyddyn Uchaf.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddod y Gymdeithas ar nos Lun, 17 Mai. Yn yr adroddiad talwyd diolchiadau i Peris a Wendy Thomas a'r pedair merch am eu cefnogaeth ymarferol a chyson dros y blynyddoedd. Ar gyfer y tymor cyfredol bydd tîm oedolion y Sul, Clwb Pêl-droed Caeathro, y prif ddefnyddwyr, gyda thîm ieuenctid Y Bontnewydd hefyd yn chwarae rhai gemau. Yn anffodus oherwydd y tywydd ni chynhaliwyd y Miri Haf eleni.

Derbyniwyd adroddiad y Trysorydd a'r Fantolen am 2006/07. Etholwyd Clive Jones fel Cadeirydd, Jason Thorman-Jones fel Trysorydd a Tim Lloyd fel Ysgrifennydd ac etholwyd Richard Jones, Huw Ceiriog, Wyn Jones, Alun Roberts, Dewi Jones, Norman Hughes, Eryl Jones ac Aled Thomas i'r pwyllgor. Felly mae dau le gwag ar y ôl.

Nid oedd unrhyw rybudd ymlaen llaw am fusnes i'w drafod.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir yr Ysgol Sul ac oedfaon fel a ganlyn yn ystod mis Hydref:

7: 10.00 Parch Reuben Roberts;
11.00 Ysgol Sul
14: 11.00 Ysgol Sul
21: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Diolchgarwch
28: Dim oedfa nac Ysgol Sul.

YSBYTY. Dymunwn adferiad buan i Alan Burford, 2 Erw Wen, sydd wedi bod yn yr ysbyty.

MYNYDDWR. Llongyfarchiadau i Arwel Huws, Perthi, am ddringo i ben Garn Fadryn ac i lawr, heb gymorth.

DIOLCH. Dymuna Idris Jones, Crud yr Awel, Rhos-bach, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CYMGOR CYMUNED. Yn y cyfarfod ar 19 Medi, datganwyd siom wrth glywed am yr oedi pellach gan Gyngor Gwynedd yn clirio'r coed sydd wedi syrthio ar draws llwybr Prysgol Bach. Nid oedd yr arolwg am y posibilrwydd o greu llwybr troed digonol yr holl ffordd i'r siop wedi'i gwblhau. Yn ogystal disgwyliwyd clywed syniadau Cyngor Gwynedd am wella'r fynediad i Dŷ Mawr a gwella'r fynedfa wrth ardal Erw Wen.

Dylid anfon ceisiadau am gymorthdaliadau ariannol i'r Clerc, Tŷ Awelog, Waunfawr, cyn 25 Hydref, gyda mantolen a rheswm am y cais.

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DOSBARTHU'R ECO. Diolchwn i Pat Jones, Cae Coch, am ymgymryd â dosbarthu'r *Eco* dros y cyfnod diwethaf. Er gwneud cais am olynydd, ni fu llwyddiant hyd yn hyn a hynny oedd yn gyfrifol na ddosbarthwyd yr *Eco* mewn pryd fis Medi. Carem wneud apêl arbennig eto i lanw'r swydd hon a hynny ar fyrder.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Oedfaon Hydref

7: 2.00: Parchg John Pritchard, Llanberis
14: 10.00: Oedfa'r Ŵyl Ddiolchgarwch, dan arweiniad Dr Eryl Wynn Davies, Llanfairpwll
21: 5.30: Parchg Wynne Roberts, Porthaethwy. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
28: 5.30: Parchg Gwenda Richards, Caernarfon.

Cynhelir cyfarfod olaf o'r Gymdeithas am y tymor nos Iau, 11 Hydref, yng nghwmni Gari Wyn (Ceir Cymru). Cadeirydd y noson fydd Mr Emyr Wiliams.


Cefnogwch ein Hysbysebwyr


## CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

Ar nos Sadwrn, 7 Gorffennaf 2007, cynhaliwyd noson *'Hog Roast'* ym Merddyn, Ceunant, Waunfawr, wedi ei threfnu gan Alwyn a Veronica Morris.

Nid sied wartheg mohoni y noson yma ond sied (wedi ei llnau yn spic a span) yn llawn teulu a ffrindiau.

Gyda'r bêls gwair wedi dyblu i fyny fel byrdda' a seti, roedd digon o le i bawb eistedd a mwynhau llond bol o fwyd blasus, a hyd yn oed pwdin (neu ddau) i ddilyn.

Roedd llond trol o wobrau raffl gwerth chweil i'w hennill ond uchafbwynt y noson, hwyrach, oedd yr ocsiwn. Gyda llygaid craff Iwan Parry, yr ocsiwniar, yn symud yn gyfrwys o sydyn o gwmpas y sied, roedd yn amlwg bod rhai bron ag ofn blincio ond cael eu dal wnaeth un neu ddau! Fe aeth yr ocsiwn, fodd bynnag, yn andros o dda – pobl ffeind iawn yn byw yn yr ardal yma.

I'r rhai oedd heb fwyta gormod ac yn dal i fedru symud rhyw 'chydig,'roedd disco i ddilyn a hyd yn oed rhyw gân neu ddwy i'w chlywed o ambell gornel o'r sied.

Er yr hwyl a'r sbri i gyd roedd pawb yn ymwybodol iawn pam yr oeddynt yno a hynny i godi arian at Ymchwil Cancr ar y Fron a Thŷ Gobaith.

Mae'n bleser gan Alwyn a Veronica hysbysu pawb fod elw y noson wedi dod i'r swm hynod o £2,020.

Dymunant ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y cymorth a'r cefnogaeth a gawsant i drefnu y noson arbennig yma a hefyd i ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mor hael.

SYMUD 'MLAEN. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau yn ddiweddar – dymuniadau da i'r dyfodol!

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Janice a'r teulu, Arwelfa, Ceunant, yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

## CD Newydd yr 'Hogia'




Mae CD newydd wedi ei chyhoeddi gan Sain, sef casgliad o ganeuon Hogia'r Wyddfa.

Cyfnod cyffrous iawn oedd y 70au ym myd canu a recordio Cymraeg ac roedd yr hogia, sef Arwel Jones, Myrddin Owen, Elwyn Wilson Jones, Richard Morris a Vivian Williams yn creu harmonïau o gwmpas barddoniaeth beirdd Cymru.

Mae'n wir i ddweud mai o ganeuon yr Hogia y mae llawer yn cofio'r cerddi arbennig yma.

Mae o leiaf dair cenhedlaeth wedi mwynhau'r caneuon ac mae eu henwau yn adnabyddus ymhob cartref, rwy'n siŵr. Erbyn hyn, mae Annette Bryn Parri yn cyfeilio iddynt ac mae un o'r caneuon 'Rhaid inni Ddathlu' yn ei chynnwys hi.

Mae'r casgliad o ganeuon gorau yr Hogia yn ymestyn dros dair degawd a hanner ac yn dyst a dathliad fod yr hogia yn dal i ganu a diddori cymaint: caneuon fel Lisa Lân, Llongau Caernarfon, Cerdd yr Hen Chwarelwr ac Eifionydd.

Mynnwch ei chael, mae yn werth chweil. Daw ac atgofion melys am gyfnod arbennig.


**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE, Llanberis**
**Ffôn: (01286) 870202**
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

# Ymweliad â Freshfields, Mumbai

**gan Nia Glyn**

Pob dydd Sul ers bron i flwyddyn rwyf wedi gwirfoddoli yn Nghanolfan Anifeiliaid Freshfields yn Nebo, ac wedi mwynhau pob eiliad o'r gwaith. Mae Leslie, perchennog y ganolfan, a'i staff yn dangos cymaint o gariad a chonsyrn am yr anifeiliaid yn eu gofal – tua 100 o gathod, 12 o gŵn, 30 ceffyl ac unrhyw anifal arall sy'n ddigartref. Rhan mwyaf pleserus y gwaith yw gweld yr anifeiliaid yn cael cartrefi cariadus.

Dros y blynyddoedd datblygwyd perthynas arbennig rhwng Freshfields Nebo/ Lerpwl a lloches anifeiliaid ym Mumbai, yr India. Yr haf yma cefais gynnig anhygoel i fynd i ymweld a gweithio yn Freshfields Mumbai am bythefnos. Perchennog y lloches yw Mrs Renu Rai, Llywydd Cymdeithas Budd Anifeiliaid Mumbai. Mae Mrs Rai wedi cysegru ei bywyd i helpu eraill, o'r plant amddifad a'r henoed tlawd, i'r cannoedd o gŵn llwglyd digartref sy'n crwydro ar hyd strydoedd Mumbai.

Mae gan y Gymdeithas raglen lawn o ddiffrwythloni a brechu, yn ogystal â bwydo tua 250 o'r cŵn sy'n crwydro ar hyd y strydoedd. Yn ei lloches a chlinig anifeiliaid mae hefyd yn cynnig hafan i tua 50 o gŵn na ellir eu ryddhau yn ôl ar y stryd oherwydd eu hiechyd.

Ar sawl noson cefais fynd gyda gweithwyr Mrs Rai ar daith o gwmpas New Bombay i fwydo'r cŵn amddifad. Roedd hwn yn brofiad unigryw ac roedd yn rhoi cyfle i mi hefyd i gael blas ar brysurdeb strydoedd Mumbai a'r tagfeydd traffic anhygoel. Roedd pawb ar draws ei gilydd – ceir, loriau, beiciau a twctwc's yn ogystal â cannoedd o bobl a gwartheg. Roedd yn awyrgylch swnllyd a lliwgar dros ben!

Bob nos, rhwng 12 a 3 o gloch y bore, mae Mrs Rai yn ymweld â'i lloches sydd ar fferm yng nghanol fforest law tua awr tu allan i Mumbai. Ar y ffordd, os oedd Mrs Rai yn sylwi ar gi neu fuwch mewn angen, roedd yn mynnu bod ei dreifar yn stopio'r car a throi yn ôl i asesu anghenion yr anifail. Roedd hyn yn dasg anodd a pheryglus yn nghanol yr holl draffig ac roeddwn yn falch nad oeddwn i yn dreifio!

Yn wythnosol mae milfeddyg o adran Filfeddygol Prifysgol Mumbai yn ymweld â chlinig Freshfields ac yn cario allan y llawdriniaethau angenrheidiol, yn bennaf i ddifrwythloni'r cŵn mae Mrs Rai wedi eu casglu oddi ar strydoedd Bombay.


Cefais weld sawl llawdriniaeth ac, er bod yr amodau yn sylfaenol iawn, roedd y llawdriniaethau yma i gyd yn llwyddiannus. Rhoddwyd gwahoddiad i mi gan y milfeddyg i ymweld â'r Coleg Milfeddygol yn Mumbai. Roedd hyn o ddiddordeb mawr i mi gan fy mod ar fin cychwyn cwrs Milfeddygol yn Lerpwl. Y Coleg Milfeddygol yn Mumbai yw'r hynaf yn India ac mae wedi ei leoli ar safle y BSPCA (Bombay Society for the Protection and Care of Animals) yng nghanol gerddi hardd ac adeiladau Prydeinig y Raj.

Un o uchafbwyntiau'r trip oedd treulio penwythnos yn nhŷ mab Mrs Rai, sy'n gyfarwyddwr ffilmiau, ac yn ystod yr amser yma cefais fynd i'r sinema i weld un o ffilmiau lliwgar a bywiog Bollywood. Mae Prashant Rai, fel ei fam, yn daer dros hawliau anifeiliaid ac mae'r ddau yn lysieuwyr brwd, fel nifer o ddilynwyr y ffydd Hindŵaidd.


Profiad anhygoel oedd y pythefnos a dreuliais yn India ac roeddwn yn ddiolchar iawn i Leslie am y cyfle bythgofiadwy. Yn ystod y cyfnod y bûm i ffwrdd cafodd 5 o gathod eu hailgartrefu o Freshfields Nebo, ond mae tua 100 o gathod bach a mawr o bob lliw a llun yn dal i ddisgwyl am gartref da. Felly, os medrwch gynnig cartref, unai i gath, ci neu geffyl, cysylltwch â Leslie Tarleton ar y cyfeiriad, e-bost neu rhif isod:

Bryn Melyn, Lôn Pant y Gog,
Nebo, Caernarfon.
(01286) 880808
freshfieldswales@aol.com
www.freshfieldsrescue.org.uk

Gallwch hefyd helpu'r elusen drwy gefnogi siop Freshfields ar Stryd Llyn, Caernarfon, a Stryd Fawr, Porthmadog.


*Gweithiwr yn bwydo dau gi bach.*


*Fi (yn y cap glas) gyda'r milfeddyg.*


*Mrs Rai gyda'r cŵn o'i hamgylch yn Freshfields, Mumbai.*



*Tu allan i Freshfields, Mumbai.*

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

# Briwsion Byd Natur

## Dafydd Guto

### RHAI PETHAU O DDIDDORDEB

Dyma ymateb, fy mhobl, i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd ynghylch rhai digwyddiadau ym myd Natur, a ymddengys braidd yn rhyfedd a hynod anghyffredin i ni *homo sapiens*! Ond dyna fo, pobol ydym ni ac nid creadur o anifail, neu aderyn mewn llwyn!

Cefais yn rhoddion hael ddau gwestiwn yn nechrau mis Mai eleni. Yn rhyfeddach fyth, ymholiadau oeddynt ynghylch yr un mater. Na! hyd y gwn, nid oedd gofynwyr y cwestiynau, sef Mrs. Gwynfor Williams, Caernarfon, nac ychwaith Anita Pierce, Llanrug, heb fod yn perthyn ran gwaed nac erioed wedi cyfarfod ei gilydd!

*Pam*, gofynnodd y ddwy wraig hynaws wrthyf, *fod mwyeilch a welwyd yn ddiweddar, yn mynd ati mewn gerddi i dorri blodau hefo eu pigau, gan adael planhigion yn ddi-flodau?*

A dyma finnau'n cofio digwyddiad yn niwedd mis Ebrill eleni pryd y gwnaeth *ceiliog paun*, yr hen gena' mawr candryll ciami iddo fo, fwyta *tiwlip* melyn a choch, un godidog ran lliwiau, a dyfai'n hamddenol braf wrth ei hunan, heb neb na dim byd yn ei boeni, hynny ydy' hyd nes daeth yr aderyn llygadog ar sgawt heibio, a chanfod meddalwch y tamaid ysblander a dyfai mewn potyn pridd o flaen 'Y Nyth'!

Ew! yn nechra' mis Mehefin dyma'r cyfaill, Peter Howlett, sydd yn gweithio yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn ateb fy llythyr ato. Mae o'n datgan na allai yn ei fyw wybod pam fod yr adar dan sylw'n bwyta penna blodau, oni bai, ebe ef, eu bod yn gywion 'leni, ac yn ceisio mynd ati i arbrofi! O ganfod cu hunain yn y byd mawr agored, ceisient, fel bob babi a grëwyd, ddod o hyd i be' ydy' be'! O bosib, meddai, ar ddiwedd ei lythyr caredig ataf, fod yr adar yn casáu rhai lliwiau neilltuol ac yn ymosod ar y blodau. Yn sicr, ni wnaethant fwyta'r blodau dan sylw!

Da chwi, peidied â beio'r hen adar yn ormodol! Da chwi, cofiwch eich hunain yn ifanc – yn blant, a'r holl fistimanars o'ch eiddo!

Ond tueddaf i feddwl mai ffurfiau'r planhigion a wnaeth ennyn sylw'r *mwyeilch*, sef bod y blodau'n ymdebygu i wlithenod, (slygsiau!), a bod yr adar drwy reddf yn eu picellu, ond bod arogl y blodau heb fod yn rhyngu eu bodd, gan nad darnau blasus o gigoedd amrwd oeddynt! Da i ddim byd! A dyna eu poeri dan draed, yn wrthrychau anheilwng gwrthodedig, a'r adar yn hedfan oddi yno, heb aros i glywed crochlefain a bygythiadau'r sawl a dyfodd y blodau. Ie, dyn ydy' dyn, ac aderyn ydy – aderyn!

Daw hyn i gyd â nyni at fater llyffantod yn gadael grifft ar ganghennau coeden, a'r hanes, diolch i Eifion, Sŵn y Gwynt, Llanberis, wedi ei gynnwys yn *Eco'r Wyddfa* mis Mawrth 2007.


Dyma ychwanegiad, diolch i'r cyfail,l Dafydd fferm Rhianfa, Deiniolen, a gyfarfyddais ar hap a damwain tu allan i Fodurdy Beran un pnawn Sadwrn, 9fed Mehefin eleni. Yr oedd Dafydd wedi gweld *crëyr glas* yn glanio a chodi oddi ar ganghennau coeden yng nghyffiniau Deinolen, ac ymhlith y brigau tarawyd ar grifft llyffant. Diwallu ei angen am lenwi ei geudwll oedd yr hen *grychydd cam*, sef y *crëyr glas*, a pha beth rheitiach bwyd na grifft llyffant, (broga)! Ydyw, mae hen bysgotwr yr afonydd a'r nentydd hefyd yn sgut am slywan go fras, a llyffaint, (brogaod) yn ogystal!

Diolch Dafydd Rhianfa am y dystiolaeth a'r sgwrs ddifyr dros ben. Bendigedig was! Mi fydda i'n gadael i Peter Howlett yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wybod am y digwyddiad hwn yn Neiniolen.

Diolchiadau hefyd i Mrs. Williams, Caernarfon ac Anita Llanrug, am eich hanesion difyr a'r tystiolaethau a gynigwyd gennych chwi. Gwerthfawrogaf eich diddordeb yn y golofn, a Byd Natur yn gyffredinol.

## CYSTADLEUAETH

**Aderyn o Fri!**



Yn ystod yr haf eleni cefais gyfle i dynnu llun y pengwin diddorol hwn, ond nid yn nalgylch *Eco'r Wyddfa*! Y cyfan sydd raid i chwi ei wneud ydyw nodi ar bapur:

(a) enw'r pengwin;
(b) dweud pa gyfandir yn y byd y byddech yn disgwyl ei weld (cofiwch nodi naill i gogledd, de, gorllewin neu'r dwyrain).

Y mae ganddo blu du a gwyn, rhes ddu ar ymyl ei frest a mymryn o liw pinc oddi tan ei ylfin, ac wedi ei enwi ar ôl llif dŵr digon oer mewn rhan neilltuol o'r môr yn ein hen fyd hynod ryfeddol.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw dydd Llun, 15 Hydref. Anfonwch eich atebion, enwau, a chyfeiriad llawn at Dafydd Guto, Neuadd Glasgoed, Llanrug LL55 3BB. Y wobr; Tocyn llyfr Cymraeg gwerth £10.


NJ
Gwasanaeth Cwnsela
Nerys John BSc. Dip. Couns.MBACP
Sesiynau yng Nghaernarfon gyda chwnselydd cymwysiedig. Cyfle i ddod o hyd i ffordd eich hun i ddelio gyda gwrthdynfa, gwrthdaro, newidiadau anodd neu phrofiadau anodd. Fe wneir hyn mewn sefyllfa nad yw yn feirniadol gan ddilyn canllawiau proffesiynol y BACP.
Ffoniwch
07796376158



Y BWTHYN TÉ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS





PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS) YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFEYDD GWYCH DROS LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS
AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill
(01286)872606
www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk



Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN
- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.
Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

# CHWARAEON

## CROESO ADREF



*Tîm Pêl-droed Bethel, 2007.*

Bu cryn edrych ymlaen at bnawn Sadwrn, 11 Awst, pan roedd clwb pêl-droed Bethel yn dychwelyd i'r pentref. Roedd ôl gwaith ar y maes a'r ystafelloedd newid, a denwyd torf dda i wylio Bethel yn trechu Biwmares 2–0.

Yn hollol briodol, sgoriwyd y ddwy gôl gan Jamie Whitmore, un o hogia'r pentref sydd wedi dod trwy system a thimau ieuenctid llwyddianus y pentref.

Da oedd gweld y gefnogaeth, gan gofio fod y pentrefwyr dros y blynyddoedd wedi cefnogi'r clwb yn ariannol mewn sawl gweithgaredd a'r Clwb Cant llewyrchus. Mae rhaglen y gemau hefyd yn dangos parodrwydd lleol i noddi drwy hysbysebu. Yn amlwg mae'n haws cerdded i Gae Coed Bolyn na mentro i faes Ysgol Brynrefail. Serch hynny, mae'r clwb yn hynod ddiolchgar i swyddogion yr Ysgol am eu cymorth i gynnal y fflam ar ôl ailgychwyn y clwb yn nhymor 2001.

Yn un o ôl-rifynnau yr *Eco* mae llun tîm Bethel yn Hydref 1986 yn chwarae ar yr un cae. Yn y cefn mae Cadeirydd presennol y clwb, Trefor Foulkes, a gall ymfalchïo yn ei ymdrech bersonnol a'i gyd-bwyllgoryddion. Nid yw Trefor yn un i laesu dwylo. Gweithiwr ydyw, ac rwy'n siŵr na fydd y clwb yn sefyll yn llonydd dan ei arweiniad.

Ar y maes cafwyd dechrau addawol iawn. Wedi chwe gêm gynghrair mae'r tîm yn ddiguro, gyda phum buddugoliaeth ac un gêm gyfartal. Mae safon y chwarae yn plesio hefyd gydag ymdrech bositif i basio'r bêl. O dan arweiniad Andrew 'Benitez' Williams ac Ellis Wyn, mae ysbryd da ymysg y chwaraewyr. Maent hefyd yn dîm ymosodol, gan sgorio 20 gôl yn y gemau cynghrair. Cafwyd gêm safonol iawn adref i Bontnewydd gan ennill o 3–2.

Ers 2001 daeth sawl cwpan cynghrair Arfon yn ôl i Fethel, ac hefyd y Junior Cup yn 2002. Mae'r gwpan hon yn darged eto eleni a chafwyd dechreuad campus drwy guro Abergele o 3–1 (nid 30–1) fel yr oedd un papur cenedlaethol yn nodi.

Abergele sy'n arwain prif gynghrair Clwyd ar hyn o bryd. Yn yr ail rownd, ar 6 Hydref, bydd Bethel yn herio Gwelfor Caergybi i ffwrdd. Tipyn o gêm!

Ar hyn o bryd mae dau dîm dan-15 y pentref yn arwain eu cynghrair hwythau hefyd. Fel y dywedwyd sawl tro, adnodd yw clwb pêl-droed a dyma'r amser i'r pentref gyd-dynnu a rhoi Bethel ar y map pêl-droed lleol.

Onid braf fuasai croesawu Llanrug a Llanberis i Goed Bolyn y tymor nesaf yng nghyngrair Pentraeth Honda. Ymlaen y bo'r nod.


**CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL**

**www.ceircymru.com**

**Bethel (01248) 670451**

**(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)**

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 17 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2007 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmniau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**


## GWNA DI'N WELL...

Ers rhai wythnosau bellach bu hysbysebion – yn wir apêl – yn y wasg am ddyfarnwyr pêl-droed. Anodd credu hyn, o gofio bod miliynau ohonom yn dyfarnu gemau o'n cadeiriau esmwyth o flaen y teledu. 'Doedd hi ddim yn gic gosb.' 'Dim yn gardyn melyn.' 'Reff gwarthus,' yw'r gri undonog yn y dafarn ar nos Sadwrn. Rydym wedi dod yn farnwyr, a hynny ar sail yr ailchwarae hyd syrffed. Teimlaf fod y beirniadu cyson o ddyfarnwyr erbyn hyn yn creu problem. Ar y lefel uchaf, teimlaf ei bod yn hanfodol erbyn hyn, i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â'r defnydd o dechnoleg i gadarnhau penderfyniadau.

Ym myd rygbi a chriced, mae'r gemau wedi elwa o'r dechnoleg, a phrin iawn yw'r feirniadaeth a gaiff y creadur yn y du. Ymddengys fod y dadlau yn rhan derbyniol o'r gêm. Rhaid cofio nad oes camerâu ym mhob gêm bêl-droed, felly sut mae cael cysondeb. Ac wedi dweud hynny, pa help ydyw i'r creadur yng ngwreiddiau'r gêm, heb lumanwyr di-duedd?

Dewch 'mlaen – rhowch eich enwau i lawr ar gyfer y cwrs nesaf. Mae'n hawdd... onid yw?

## CYNNAL TRADDODIAD

Sawl tro y clywsom yr hen ystrydeb, 'tîm cwpan ydi Llanbêr'. Ydynt, mae'r hogia wrthi eto y tymor hwn. Gwantan iawn fu'r perfformiadau cynghreiriol ond nid felly yng Nghwpan Cymru a'r F.A. Trophy.

Ai y gêm yn y cwpan cenedlaethol yn erbyn y Drenewydd ar 6 Hydref fydd y gêm fwyaf yn hanes y clwb – yn sicr y bwysicaf ers y daith enwog i Gaerleon flynyddoedd yn ôl? Rwy'n siŵr y bydd torf dda ar Faes Padarn, yn enwedig o gofio fod y mab afradlon, Marc Lloyd Williams, yn dychwelyd yn ôl i'w gynefin, gan gwblhau cylch arbennig. Mae Marc ar dân y tymor hwn, ac rwy'n siŵr y buasai rhwydo yn Llanbêr yn golygu tipyn iddo.

Wrth basio cae Llanbêr yn ddiweddar sylwais fod rhywbeth yn 'wahanol'. Ie, roedd yr hen byst gôl wedi diflannu, a set newydd tew yn eu lle. Sawl atgof am gemau a goliau!

Gyda llaw, un sgôr a ddaliodd fy sylw oedd y gêm gwpan ddarbi rhwng Rhiwlas a Mynydd Llandegai. Rwy'n siŵr na cherddodd yr un o'r timau dros Foel Rhiwen i chwarae'r gêm! Yn wir, ym Mangor y chwaraewyd hi. Ond braf gweld y pentrefi oedd gyda thimau erstalwm yn dychwelyd.

A minnau wedi dechrau drwy sôn am Llanbêr, beth amdani, hogia Rachub – ydy ysbryd Llechid yn fyw o hyd?

A nodyn olaf i ddymuno pen-blwydd hapus arbennig i Arwel. Os dwi'n cofio'n iawn, roedd dy hen fêt – y diweddar Emrys Cochyn, erbyn hyn – yn awgrymu y dylset fod wedi 'riteirio' flynyddoedd yn ôl! Ond doedden nhw'n ddyddiau braf?

## MAE'R BYD YN CLOSIO

Bu dwy gystadleuaeth yn hoelio'r sylw yn ddiweddar, sef Cwpan Rygbi'r Byd a Chwpan Criced 20/20 y Byd, a chafwyd gemau i'w cofio yn y ddwy gystadleuaeth.

I mi, mae un elfen gyffredin i'r ddwy gystadleuaeth. Yn amlwg mae'r bwlch rhwng y gwledydd 'prif lif' a'r gweddill yn lleihau. O dan y rheol o 'fyw mewn gwlad' am gyfnod mae'n rhyfeddol sylwi faint o chwaraewyr o'r gwledydd 'llai' sy'n chwarae i'r prif dimau rygbi, fel Seland Newydd.

O sylwi ar berfformiadau Samoa a Tonga, nid ymroddiad yn unig sydd yma, ond hefyd datblygiad pendant mewn systemau chwarae, heb golli yr elfennau cynhenid – yn enwedig y taclo!

Yn oes y teithio byd-eang, a yw hi'n amser cyflwyno Cynghrair Byd i rygbi? Y gŵyn oesol fu nad oedd digon o wledydd yn chwarae'r gêm. Newidiodd hynny'n arw yn y blynyddoeddd diwethaf. I feithrin y datblygiad rhaid creu strwythr i'r gwledydd llai gael cyfle i ddod i'r bwrdd mawr.

Mae'r Ariannin yn enghraifft berffaith o hyn – ond ble y gallent chwarae? Cystadleuaeth y Chwe Gwlad yn hemisffer y gogledd, neu'r Tair Gwlad yn hemisffer y de? Buasai cynghrair byd-eang o dair adran, gydag esgyn a disgyn, yn hwb sylweddol. Rwy'n siŵr y buasai ambell sianel deledu wrth eu bodd yn ennill y cytundeb i ddangos y gemau.

Buasai cynnwrf y cynghreiriau hefyd yn rhoi awch arbennig i gystadleuaeth Cwpan y Byd, gan gynnwys yr 16 gwlad gryfaf pob pedair blynedd. Buasai'r chwaraewyr, o reidwydd, hefyd yn cynrychioli eu mamwlad.

Ni wnaf sylw am siawns Cymru draw yn Ffrainc, gan fe all tro arall ddod yng nghynffon y gystadleuaeth eleni. Teimlaf y bydd ambell sioc wedi bod cyn i ni gyrraedd yr wyth olaf.

Ffenomenon ryfeddol yw'r 20/20. Mae'n denu torfeydd, digon o chwarae ymosodol a chyflwyniad teledol bywiog. Hefyd ceir canlyniad penodol mewn amser cymharol fyr – hanfodol mewn oes sydd angen popeth 'rŵan'. Clywais si fod ymgais ar droed i sefydlu cynghrair 20/20 yn lleol yn ystod tymor 2008. Yn sicr, buasai'n ffordd o gyflwyno ein clybiau lleol i niferoedd mwy.